Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Cynllun Datblygu Lleol 2011 - 2026

## Adroddiad Monitro Blynyddol

(Hydref 2021)







www.npt.gov.uk/ldp

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Crynodeb Gweithredol .......... 3

## RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir

1 Cyflwyniad .......... 9
2 Newid Cyd-destunol .......... 13
2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol .......... 13
2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol .......... 16
2.3 Y Cyd-destun Lleol .......... 17

## RHAN 2 - Monitro'r CDLl

3 Strategaeth .......... 21
3.1 Strategaeth .......... 21
4 Polisiau Trosfwaol .......... 23
4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd .......... 23
4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd .......... 27
4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy .......... 29
4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith .......... 31
5 Polisiau a Seiliwyd ar Ardaloedd .......... 33
5.1 Polisi Strategol 5 Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfodir .......... 33
5.2 Polisi Strategol 6 Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd .......... 38
6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy .......... 43
6.1 Polisi Strategol 7 Y Gofyn o ran Tai .......... 43
6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy .......... 48
6.3 Polisi Strategol 9 Sipsiwn a Theithwyr .......... 51
6.4 Polisi Strategol 10 Mannau Agored .......... 52
7 Hybu Economi Gynaliadwy .......... 55
7.1 Polisi Strategol 11 Twf Cyflogaeth .......... 55
7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu .......... 59
7.3 Polisi Strategol 13 Twristiaeth .......... 61

# Contents




**8 Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd** ..... **63**

8.1 Polisi Strategol 14 Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu ..... 63

8.2 Polisi Strategol 15 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth ..... 63

8.3 Polisi Strategol 16 Diogelu'r Amgylchedd ..... 64

8.4 Polisi Strategol 17 Mwynau ..... 67

8.5 Polisi Strategol 18 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ..... 70

8.6 Polisi Strategol 19 Rheoli Gwastraff ..... 73

**9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy** ..... **77**

9.1 Polisi Strategol 20 Rhwydwaith Trafnidiaeth ..... 77

**10 Parchu Unigrywiaeth** ..... **79**

10.1 Polisi Strategol 21 Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol ..... 79

10.2 Polisi Strategol 22 Yr Iaith Gymraeg ..... 81


## RHAN 3 – Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd


**11 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd** ..... **85**

11.1 Pwnc 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd ..... 85

11.2 Pwnc 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff ..... 89

11.3 Pwnc 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth ..... 94

11.4 Pwnc 4 yr AC: Y Tirlun, y Treflun a'r Cymeriad Hanesyddol ..... 96

11.5 Pwnc 5 yr AC: Llygredd ..... 97

11.6 Pwnc 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol ..... 99

11.7 Pwnc 7 yr AC: Iechyd a Llesiant ..... 104

11.8 Pwnc 8 yr AC: Economi ..... 111


## RHAN 4 – Diweddglo ac Argymhellion


**12 Diweddglo ac Argymhellion** ..... **125**

**A Indicators No Longer Being Reported in the AMR** ..... **127**

**B Cyflawni Tai** ..... **133**

# Crynodeb Gweithredol

1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Castell-nedd Port Talbot ar 27 Ionawr 2016. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu (Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004[1] a Rheoliad 37 o Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u newidiwyd))[2], mae'n ofynnol bod y Cyngor yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

2 Pwrpas yr AMB yw canfod a yw Strategaeth y CDLl yn effeithiol ac yn cyflawni ei amcanion; asesu a yw'r polisïau strategol yn gweithio'n ymarferol; asesu effaith y CDLl ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir; nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun; ac yn y pen draw penderfynu a oes angen diwygio'r Cynllun mewn unrhyw fodd.

3 Ym mis Ionawr 2020, cychwynnodd y Cyngor adolygiad o'r CDLl yn unol â'r gofyniad statudol o dan Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sef bod CDLliau yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl eu mabwysiadu. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu'r CDLl[3] i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020.

4 Y cam cyntaf wedi hynny yn y broses o lunio'r cynllun amnewid yw llunio fersiwn derfynol o Gytundeb Cyflawni'r CDLl (CC) a'i gyhoeddi, gan nodi'r amserlen a'r cynllun ar gyfer cynnwys y gymuned a ddilynir yn ystod y broses o baratoi'r CDLl Amnewid (CDLlA). Bu oedi wrth lunio'r fersiwn derfynol o'r CC, o ganlyniad i bandemig Covid-19, ond rhagwelir y bydd hyn nawr yn digwydd yn gynnar yn 2022, ac y bydd y camau ffurfiol cyntaf o waith paratoi'r CDLlA yn cychwyn yr un pryd.

5 Nes bod y CDLlA yn cael ei fabwysiadu, mae'n dal yn ofynnol bod y Cyngor yn paratoi AMB o'r CDLl cyfredol. O ganlyniad, bydd AMBau yn dal i gael eu paratoi er mwyn dadansoddi gweithrediad y Cynllun cyfredol a llywio'r gwaith o baratoi'r CDLlA

6 Hwn yw'r pumed AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021.

**Canfyddiadau Allweddol yr AMB**

**Gwybodaeth Gyd-destunol**

7 Mae Rhan 1 o'r AMB yn darparu crynodeb o'r newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol arwyddocaol a pherthnasol yn ystod y cyfnod monitro hwn. Ymhlith y cyhoeddiadau nodedig mae Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11), Adeiladu Lleoedd Gwell, Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy CNPT (Strategaeth DARE) ac Adroddiad Adolygu CDLl CNPT.



1 Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents
2 Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made
3 Ar gael yn: www.npt.gov.uk/media/13823/ldp-review-report-july-2020.pdf?v=20200709084011

## Dadansoddiad Polisi

**8** Mae Rhan 2 o'r AMB yn asesu sut mae polisïau strategol y Cynllun yn perfformio yn erbyn y targedau monitro allweddol a'r canlyniadau a nodwyd, ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLl yn cael eu cyflawni.

**9** Gan y barnwyd bod nifer o ddangosyddion yr adroddwyd amdanynt yn AMB 2020[(4)] wedi creu 'sbardun' i adolygu'r polisi dan sylw, a'r dyfarniad y byddai hynny'n digwydd fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r CDLl oedd i ddod, nid adroddir ar ddangosyddion sydd eisoes wedi sbarduno'r cyfryw adolygiad yn yr AMB hwn yn 2021, yn hytrach adroddir arnynt mewn Papurau Pwnc CDLIA perthnasol a baratowyd fel rhan o broses Adolygu'r CDLl. Ceir rhestr lawn o'r dangosyddion hyn yn Atodiad A.

**10** Mae'r Tabl isod yn darparu trosolwg o'r fframwaith arfarnu ar gyfer asesu'r dangosyddion sy'n weddill.

**Fframwaith Monitro'r CDLl**

| Asesu | Gweithredu | Nifer y dangosyddion yn y categori (2020/21) |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau | 35 |
| Nid yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd | Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLl mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol | Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | 7 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y CDLl yn destun proses adolygu | 0 |
| Dangosydd wedi'i gwblhau | Dim angen monitro na gweithredu pellach | 15 |
| Nid yw'r dangosydd yn cael ei fonitro bellach, gan fod TAN1 wedi'i ddileu (Gweler Pennod 6 am ragor o wybodaeth) | | 1 |
| Dim data ar gael eto | | 2 |

**11** Mae mwyafrif y dangosyddion yr adroddir amdanynt o hyd yn yr AMB hwn yn parhau i ddangos gweithrediad polisi cadarnhaol (83.3%). O'r saith dangosydd yr adroddir arnynt yn yr AMB sy'n awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu, mae pedwar yn ymwneud â chyflwyno tai.

4 Ar gael yn: www.npt.gov.uk/media/14629/local-development-plan-annual-monitoring-report-october-2020.pdf?v=20201030162145

**Dangosyddion sy’n awgrymu nad yw polisi strategol yn cael ei weithredu**

| Dangosydd | Targed | Pwynt Sbarduno |
|---|---|---|
| Dangosydd 6: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C2 | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiadau agored iawn i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2. | Caniatáu un cais ar gyfer datblygiad agored iawn i niwed. |
| Dangosydd 33: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf. | Targedau cyflwyno blynyddol. | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarperir yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn syrthio o dan y gofyniad cronnol ddwy flynedd yn olynol. |
| Dangosydd 34: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa’r Parc, Glyn-nedd. | Darparu 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir eu cychwyn o 2020/21. | Ni chyflwynir y datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa’r Parc, Glyn-nedd o 2020/21. |
| Dangosydd 38: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Bydd y dyraniad yn Rheola wedi’i gyflwyno erbyn 2021. | Nid yw’r dyraniad yn Rheola wedi’i gyflwyno erbyn 2021. |
| Dangosydd 39: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl. | Gwneir cyfanswm darpariaeth o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026.<br><br>[Rhestrir targedau cyflawni blynyddol] | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarperir yn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| Dangosydd 41: Nifer yr anheddau net ychwanegol a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl. | Cyflwyno 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026.<br><br>[Rhestrir targedau cyflawni blynyddol] | Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarperir yn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg carbon isel ac ynni adnewyddadwy. | Cyflawni targedau capasiti AChS TAN 8 ac annog pob math ar ddatblygu technoleg carbon isel ac ynni adnewyddadwy, lle bo hynny’n briodol. | Ni chofnodir cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir. |

**12** Adroddwyd yn flaenorol ar ddau o’r rhain (dangosyddion 39 a 41) i awgrymu nad yw Strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu’n unol â’r bwriad, ond maent yn parhau i gael eu monitro oherwydd Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y’u newidiwyd)[5] sy’n gofyn bod AMBau yn adrodd ar gyflwyno tai marchnad a fforddiadwy.

**13** Mae Pennod 6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy yn manylu ar y cynnydd o ran cyflwyno tai yn ystod y cyfnod monitro. Mae’n dangos bod 149 o dai wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro (yr oedd rhyw draean ohonynt yn dai fforddiadwy a gyflwynwyd trwy Grant Tai Cymdeithas a phedwar ohonynt yn dai fforddiadwy a gyflwynwyd trwy a.106).

5 Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made

## Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

**14** Yn ogystal â monitro cyflawni strategaeth CDLl CNPT, mae’r AMB yn adrodd ar ganlyniadau monitro a wnaed ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd (AC). Mae hyn yn cynnwys nifer o ddangosyddion a nodwyd yn Fframwaith Monitro’r CDLl, gan ychwanegu 12 o ddangosyddion AC sy’n cael eu hasesu ac yr adroddir arnynt fel rhan o’r AMB. Dengys y tabl isod fod 64.0% o’r dangosyddion yn cael effaith sydd naill ai’n gadarnhaol neu’n niwtral.

### Monitro’r AC

| Asesiad | Nifer y Dangosyddion o fewn y Categori |
|---|---|
| Effeithiau cyffredinol gadarnhaol | 81 |
| Effeithiau cymysg | 49 |
| Effeithiau cyffredinol negyddol | |
| Effaith niwtral | 6 |

# RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir

# 1 Cyflwyniad

**1.0.1** Mabwysiadwyd CDLl CNPT ar 27 Ionawr 2016, ac ar y cyd â Cymru'r Dyfodol mae'n ffurfio cynllun datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Y dogfennau hyn sy'n darparu'r fframwaith cynllunio defnydd tir sy'n ffurfio sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch datblygu yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys ceisiadau cynllunio.

**1.0.2** O dan Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 37 o Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u newidiwyd) mae'n ofynnol bod y Cyngor yn monitro effeithiau'r CDLl ac yn cyhoeddi AMB sy'n dadansoddi effeithiolrwydd y CDLl, gan nodi agweddau nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith fel y rhagwelwyd neu nad ydynt yn cael yr effaith ofynnol.

**1.0.3** Pwrpas yr AMB yw canfod a yw Strategaeth y CDLl yn effeithiol ac yn cyflawni ei hamcanion; asesu a yw'r polisïau strategol yn gweithio'n ymarferol; asesu effaith y CDLl ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir; nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun; ac yn y pen draw, penderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun.

**Adolygiad CDLl CNPT**

**1.0.4** Yn unol ag Adran 69(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 37 o Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u newidiwyd), mae'n ofynnol bod y Cyngor yn adolygu'r CDLl o leiaf bob pedair blynedd.

**1.0.5** O ganlyniad i'r gofyniad hwn, cychwynnodd y Cyngor adolygiad o'r CDLl ym mis Ionawr 2020. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Ionawr a Mawrth 2020, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu'r CDLl[6] i'w gyhoeddi mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 2 Gorffennaf 2020.

**1.0.6** Y cam cyntaf dilynol ym mhroses y cynllun amnewid yw llunio fersiwn derfynol o Gytundeb Cyflawni'r CDLl (CC) a'i gyhoeddi, yn nodi'r amserlen a'r cynllun cynnwys y gymuned a ddilynir wrth baratoi'r CDLlA. Fodd bynnag, o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'i effeithiau ar weithdrefnau paratoi'r cynllun, bu oedi yng ngweithgareddau a phrosesau ymgynghori'r Cyngor a pharatoi a chyhoeddi'r CC, ymhlith pethau eraill. Rhagwelir y bydd hyn yn awr yn cael ei gwblhau, ac y bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn 2022, gyda chyfnodau ffurfiol cyntaf gwaith paratoi'r CDLlA yn cychwyn bryd hynny hefyd.

**1.0.7** Bydd y gofyniad i gynhyrchu AMB ar gyfer y CDLl presennol a fabwysiadwyd fel rhan annatod o broses y cynllun datblygu statudol yn parhau hyd nes bod y CDLlA newydd wedi'i fabwysiadu.



6 Ar gael yn: www.npt.gov.uk/media/13823/ldp-review-report-july-2020.pdf?v=20200709084011

## Fframwaith Monitro CDLl CNPT

**1.0.8** Mae Adran 6 o'r CDLl a fabwysiadwyd yn cyflwyno Fframwaith Monitro'r AMB. Mae'n cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion, gyda thargedau cyfatebol a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach. Yn dilyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ym mis Mawrth 2020, gwnaed newidiadau i'r fframwaith monitro fel y nodir yn yr AMB (2020)[7].

**1.0.9** Mae'r tabl isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o fonitro, ac mae sawl opsiwn posibl i helpu i roi sylw i ddangosyddion nad ymddengys eu bod yn cyflawni'n unol â'r disgwyl. I gynorthwyo wrth ddehongli'r monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau symlach i nodi sut mae'r dangosydd yn perfformio.

**Tabl 1.0.1 Fframwaith Monitro'r CDLl**

| Asesiad | Gweithredu | Côd Lliwiau |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau | |
| Nid yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd | Gal fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau | |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol | |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun | Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau | |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu | Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLl yn destun proses adolygu | |

**1.0.10** Barnwyd bod nifer o ddangosyddion yr adroddwyd arnynt yn AMB 2020 wedi 'sbarduno' adolygiad o'r polisi dan sylw, a nodwyd y byddai hynny'n cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r CDLl, oedd i ddod. O ganlyniad, nid adroddir ar y dangosyddion sydd eisoes wedi sbarduno adolygiad yn yr AMB hwn ar gyfer 2021, ond parheir i adrodd arnynt mewn Papurau Pwnc CDLIA perthnasol a baratoir fel rhan o broses Adolygu'r CDLl. Rhestrir y dangosyddion dan sylw yn Atodiad A, gyda manylion y canfyddiadau monitro perthnasol.

**1.0.11** Mae'r AMB hefyd yn adrodd ar ganlyniadau'r monitro a wnaed ar gyfer yr AC. Mae hyn yn cynnwys nifer o ddangosyddion a nodwyd yn fframwaith monitro'r CDLl, gan ychwanegu 12 o ddangosyddion AC, sy'n cael eu hasesu ac yr adroddir arnynt fel rhan o'r AMB. Defnyddir y côd lliwiau canlynol i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd AC:

7 Gweler AMB 2020 Paragraffau 1.0.10 - 1.0.12

**Monitro'r AC**

| Asesu | Côd Lliw |
|---|---|
| Effeithiau cyffredinol gadarnhaol | |
| Effeithiau cymysg | |
| Effeithiau cyffredinol negyddol | |
| Effaith niwtral | |

## Strwythur a Chynnwys

1.0.12 Mae strwythur yr AMB yn cynnwys y pedair rhan ganlynol:

- **Rhan 1: Cyflwyniad a Chefndir –** yn rhoi cyflwyniad ac yn amlinellu'r newid cyd-destunol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ystod y cyfnod monitro;
- **Rhan 2: Monitro'r CDLl –** yn darparu manylion am ganfyddiadau monitro Dangosyddion y CDLl (yn nhrefn y Cynllun);
- **Rhan 3: Monitro'r AC –** yn manylu ar ganfyddiadau monitro amcanion yr AC; a
- **Rhan 4: Casgliadau ac Argymhellion**

# 1 . Cyflwyniad

# 2 Newid Cyd-destunol

**2.0.1** Mae'r Bennod hon yn amlinellu newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ystod y cyfnod monitro. Darperir gwybodaeth gyd-destunol bellach sy'n benodol i faes polisi CDLl arbennig, lle bo hynny'n briodol, yn yr adran bolisi berthnasol.

## 2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

### Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

**2.1.1** Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: Y cynllun cenedlaethol 2040 ('Cymru'r Dyfodol')[(8)] ym mis Chwefror 2021. Ochr yn ochr â CDLl CNPT, mae Cymru'r Dyfodol yn rhan o gynllun datblygu statudol CNPT.

**2.1.2** Fel Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd i Gymru (FfDC), mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu strategaethau Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio; yn manylu ar ble bydd buddsoddiad LlC yn cael ei grynhoi yn y dyfodol; ac yn darparu'r weledigaeth ofodol ar gyfer datblygu hyd at 2040.

- Mae Polisi 1 'Ble bydd Cymru'n tyfu' yn nodi tair Ardal Twf Cenedlaethol ar gyfer twf cyflogaeth, cyfleoedd tai a buddsoddi mewn seilwaith – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd; Bae Abertawe a Llanelli; a Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli yn cynnwys trefi Castell-nedd a Phort Talbot. Mae Polisi 2 'Ffurfio Twf ac Adfywiad Trefol – Creu Lleoedd Strategol' yn pwysleisio pwysigrwydd creu lleoedd strategol.
- Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Castell-nedd a Phort Talbot fel dau o nifer o 'Ardaloedd Blaenoriaeth Gwres Ardal'. Mae Polisi 16 'Rhwydweithiau Gwres' yn dweud y dylai datblygiadau defnydd cymysg ar raddfa fawr (100 neu fwy o anheddau a/neu 10,000 msg o arwynebedd llawn masnachol) yn yr ardaloedd hyn feddu ar rwydwaith gwres â ffynhonnell adnewyddadwy/carbon isel lle bo hynny'n ymarferol bosibl.
- Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi ardal helaeth o CNPT fel rhan o'r 'Ardaloedd a Ragaseswyd ar gyfer Ynni Gwynt'. Mae Polisi 17 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig' yn dangos bod rhagdybiaeth yn yr ardal hon, yn amodol ar nifer o feini prawf, o blaid ynni gwynt ar raddfa fawr.
- Mae Adran 5 'Y Rhanbarthau' yn rhannu Cymru yn bedwar rhanbarth cynllunio gofodol – Gogledd Cymru; Canolbarth Cymru; De-ddwyrain Cymru; a De-orllewin Cymru. Mae CNPT, ochr yn ochr â Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe, yn ffurfio rhan o Ranbarth De-orllewin Cymru.
- Mae Polisi 19 'Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol' yn gofyn bod pob rhanbarth yn cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (CDS), a fydd o'i fabwysiadu yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol
- Mae Polisi 30 'Lleiniau Glas yn y De-orllewin' yn cefnogi defnydd o'r CDS i nodi a sefydlu lleiniau glas er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol, yn arbennig o amgylch yr Ardal Twf Cenedlaethol.

8 Ar gael yn: gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/future-wales-the-national-plan-2040.pdf

- Mae Polisi 31 'Metro'r De-orllewin' yn dweud bod LIC yn cefnogi datblygiad Metro De Cymru, ac y bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth i Gymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn gallu ei gyflawni a mwyafu'r cyfleoedd cysylltiedig. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi'r angen am asesu'r achos o blaid ailagor leiniau rheilffordd hŷn a gorsafoedd newydd megis Cwm Dulais, Dyffryn Aman, Cwm Nedd a Chwm Tawe.

**2.1.3** Yn unol â Rheoliadau 60 a 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, bydd angen bod CDSiau a CDLliau yn cydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol. Bydd angen hefyd bod CDLliau yn cydymffurfio'n gyffredinol â CDSiau.

**Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11**

**2.1.4** I gyd-ddigwydd â chyhoeddi Cymru'r Dyfodol, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 11).[9]

**2.1.5** Cyflwynwyd nifer o newidiadau trwy'r fersiwn o PCC a ddiweddarwyd, gan gynnwys:

- Ychwanegu gwybodaeth ynghylch Siarter Creu Lleoedd Cymru a gwreiddio egwyddorion creu lle yn y system gynllunio yng Nghymru.
- 'Diweddaru'r adran 'Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol' i gynnwys cysylltiadau ehangach â datgarboneiddio ac ynni.
- Ychwanegu cyfeiriad at gymhwyso'r Ddyletswydd Sosio-economaidd, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais sosio-economaidd.
- Adran wedi'i chryfhau ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol i ddatgloi potensial datblygu safleoedd.
- Hyrwyddo ffynhonnau dŵr yfed/gorsafoedd ail-lenwi fel rhan o ddatblygu mewn ardaloedd cyhoeddus.
- Eglurhad i gefnogi canllawiau arfer gorau yn yr amgylchedd hanesyddol o ran ystyried lleoliadau gweddillion archaeolegol fel rhan o gynigion datblygu.
- Ehangu'r adran 'Teithio Llesol' fel bod gofyniad i roi seilwaith teithio lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ei le yn gynnar yn y broses ddatblygu.
- Diweddaru'r adran 'Trafnidiaeth' i sicrhau bod dyluniad strydoedd newydd yn cefnogi gwaith ehangach LIC i sicrhau bod 20mya yn derfyn cyflymder newydd diofyn ac i atal parcio ar y palmant.
- Diweddaru'r adran 'Cyflwyno Tai' i adlewyrchu newidiadau polisi a wnaed gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Mawrth 2020 ynghylch dileu'r polisi cyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai a'r taflwybrau tai.[10]
- Diweddaru'r adran 'Tai Fforddiadwy' i adlewyrchu datganiad polisi'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2019 ynghylch yr angen i awdurdodau cynllunio greu darpariaeth ar gyfer safleoedd sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy wrth adolygu eu CDLliau.[11]
- Eglurhad bod gofyn i'r holl dai fforddiadwy fodloni safonau ansawdd datblygu LIC.

---

9 Ar gael yn: gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf
10 Gweler yr Adran Cyflwyno Tai i gael rhagor o fanylion
11 Gweler yr Adran ar Covid-19 isod

- Ychwanegu cyfeiriad at bandemig Covid-19 a dogfen Adeiladu Lleoedd Gwell LIC[12]

**Newidiadau Eraill i'r Cyd-destun Cenedlaethol**

**Pandemig Covid-19**

**2.1.6** Yn ystod y cyfnod monitro hwn, mae effaith pandemig byd-eang Covid-19 wedi parhau i effeithio ar y Fwrdeistref Sirol.

**2.1.7** Ar 7 Gorffennaf 2020, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at bob awdurdod lleol i gadarnhau ymrwymiad LIC fel rhan o'r adferiad wedi Covid-19 i'r system a arweinir gan gynlluniau, datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd, gan ddweud bod yr ymrwymiad hwnnw wedi'i ategu gan yr argyfwng presennol, yn hytrach na'i leihau.[13]

**2.1.8** Mae'r llythyr yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol y bydd angen iddynt ystyried goblygiadau'r pandemig ar gyfer cynlluniau sy'n dod i'r amlwg, yn arbennig o ran yr economi, tai a materion trafnidiaeth. Mae hefyd yn cyflwyno newidiadau i'r Hawliau Datblygu a Ganiateir i ymdrin â materion dros dro yn sgîl pandemig Covid-19 (er enghraifft, hawliau datblygu dros dro a ganiateir i gefnogi busnesau, megis caniatáu 28 diwrnod ychwanegol ar gyfer newidiadau defnydd tir a defnydd dros dro (treialu) yng nghanol trefi (6 mis)).

**Adeiladu Lleoedd Gwell**

**2.1.9** Ar 16 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd LIC Adeiladu Lleoedd Gwell.[14]Mae'r ddogfen hon yn cydnabod pandemig Covid-19 fel un o'r heriau mwyaf cymhleth ers cenhedlaeth ac yn amlygu'r blaenoriaethau polisi a'r camau gweithredu mwyaf perthnasol i gynorthwyo adferiad.

**2.1.10** Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn pwysleisio pwysigrwydd dull gweithredu a arweinir gan gynlluniau a chreu lleoedd ar gyfer adferiad, ac yn dweud y dylai'r cyfnod adfer uniongyrchol geisio canolbwyntio ar yr ystyriaethau canlynol, er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer adferiad:

- Aros yn lleol: creu cymdogaethau;
- Teithio llesol: ymarfer corff ac ailddarganfod dulliau trafnidiaeth;
- Adfywio canol ein trefi;
- Lleoedd digidol: cynhaliaeth y cyfnod clo;
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol;
- Deffro sectorau twristiaeth a diwylliant Cymru o'r newydd;
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a llesiant a gwydnwch ecolegol;
- Gwella ansawdd aer a sainluniau i greu gwell iechyd a llesiant.



12 Gweler yr adran Adeiladu Lleoedd Gwell isod
13 Llythyr ar gael yn: www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2020/07/Planning-and-the-post-Covid-19-recovery-Letter-to-local-authorities-07.07.2020.pdf
14 Ar gael yn: gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/building-better-places-the-planning-system-delivering-resilient-and-brighter-futures.pdf

## 2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol

### Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru

**2.2.1** Yng ngoleuni'r trefniadau cynllunio newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a chyflwyno CDSiau, mae gwaith wedi parhau i gefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol. Yn ei rôl arweiniol/ysgrifenyddol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru, mae Swyddogion Polisi CNPT wedi parhau i hwyluso trafodaeth barhaus a chynnydd yng nghyswllt mentrau ac astudiaethau cydweithio rhanbarthol.

**2.2.2** Yn ystod y cyfnod monitro, mae awdurdodau rhanbarthau Canolbarth a De-orllewin Cymru[15] wedi gweithio ar y cyd ag ymgynghorwyr i gynhyrchu Asesiad ar y Cyd o'r Farchnad Dai Leol (LHMA)[16](cyhoeddwyd ym mis Hydref 2020). Mae'r awdurdodau hefyd wedi cydweithio i ddatblygu gwaith dichonolrwydd rhanbarthol (sy'n parhau). Bydd y darnau hyn o waith yn llywio adolygiadau CDLliau unigol ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith ar CDSiau yn y dyfodol. Bydd cyfleoedd pellach i weithio ar y cyd yn cael eu harchwilio wrth symud ymlaen.

### Bargen Ddinesig Bae Abertawe

**2.2.3** Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe[17] ar 20 Mawrth 2017 (rhaglen fuddsoddi gwerth £1.3bn sy'n cynnwys 11 o brosiectau strategol ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe[18], y mae disgwyl iddi roi hwb o ryw £1.8bn i'r economi ranbarthol, a chreu bron 10,000 o swyddi newydd o safon uchel) ac mae CNPT wedi arwain 3 o'r 11 prosiect:

- Cartrefi sy'n Bwerdai;
- Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf; a
- Gwyddor Dur.

**2.2.4** Yn ystod y cyfnod monitro hwn cafwyd cymeradwyaeth ranbarthol ar gyfer prosiect Cartrefi sy'n Bwerdai a chodwyd y gwaith dur ar gyfer Canolfan Dechnoleg CNPT[19].

### Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru (CDS)

**2.2.5** Yn ystod y cyfnod monitro, bu LIC yn ymgynghori ar reoliadau drafft i greu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC) rhanbarthol i ymarfer swyddogaethau cysylltiedig â chynllunio'r CDS, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a llesiant economaidd eu hardaloedd.

**2.2.6** Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ar 17 Mawrth 2021 lluniwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021[20]. Roedd y ddeddf hon yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer CJCs. Wedyn ar 1 Ebrill 2021, sefydlwyd y pedwar CJC canlynol:



15 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor CNPT, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Powys a Dinas a Sir Abertawe
16 Ar gael yn: https://www.npt.gov.uk/media/15510/mplussww-regional-housing-market-assessment-final-131020.pdf?v=20210407164845
17 https://www.swanseabaycitydeal.wales
18 Sir Gaerfyrddin, CNPT, Sir Benfro ac Abertawe
19 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://www.swanseabaycitydeal.wales/timeline/
20 Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/contents

- Rheoliadau CJC Gogledd Cymru 2021;
- Rheoliadau CJC Canolbarth Cymru 2021;
- Rheoliadau CJC De-ddwyrain Cymru 2021; a
- Rheoliadau CJC De-orllewin Cymru 2021[21]

**2.2.7** Bydd Rheoliadau 11, 12 ac 13 o Reoliadau CJC De-orllewin Cymru(22)[22] (rheoliadau ynghylch llesiant economaidd, trosglwyddo swyddogaeth etc. ar gyfer datblygu polisïau trafnidiaeth a swyddogaethau cynllunio strategol) yn dod i rym ar 30 Mehefin 2022.

**2.2.8** Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y Rheoliadau CJC a chanllawiau yn haf 2021.

## 2.3 Y Cyd-destun Lleol

### Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy

**2.3.1** Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Medi a Thachwedd 2019, ar 21 Mai 2020, cymeradwyodd Pwyllgor Craffu Cabinet y Cyngor/y Cabinet Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy'r Cyngor (Strategaeth DARE)[23].

**2.3.2** Yn dilyn datganiad LIC ynghylch argyfwng hinsawdd ar 30 Ebrill 2019, mae Strategaeth DARE yn darparu strategaeth a chynllun gweithredu clir yng nghyswllt Agenda'r Newid yn yr Hinsawdd / Datgarboneiddio. Mae'n amlinellu gweledigaeth drosfwaol ac amcanion y Cyngor, yn cyflwyno'r hyn mae'r Cyngor eisoes wedi'i gyflawni, ac yn nodi'r cyfleoedd posibl sy'n bodoli i'r dyfodol. O ganlyniad, mae'r ddogfen yn rhan annatod o ymgyrch gyffredinol y Cyngor i fod yn gynaliadwy, a bydd fframwaith y cynllun gweithredu cysylltiedig yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyheadau o ran lleihau ei ôl-troed carbon

### Adroddiad Adolygu'r CDLl

**2.3.3** Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Ionawr a Mawrth 2020, cytunodd y Cyngor Llawn ar Adroddiad Adolygu CDLl y Cyngor ar 2 Gorffennaf 2020. Mae'r Adroddiad Adolygu yn cadarnhau adolygiad llawn o'r CDLl, a fydd yn cychwyn yn y cyfnod monitro nesaf oherwydd oedi yn sgîl pandemig Covid-19.

### Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol

**2.3.4** Yn unol â gofyniad Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[24] i gynhyrchu Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol yn dangos ble mae llwybrau cerdded a beicio eisoes yn bodoli (Llwybrau Presennol) a ble rhagwelir uwchraddio neu lwybrau newydd sbon yn ystod y 15 mlynedd nesaf (Llwybrau'r Dyfodol), mae'r Cyngor yn gweithio gyda Sustrans Cymru i baratoi Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol.



21 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://gov.wales/consultation-corporate-joint-committees-general-no2-wales-regulations-2021-html
22 Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/352/body/made?view=plain
23 Ar gael yn: https://data.climateemergency.uk/media/data/plans/neath-port-talbot-county-borough-council-b4fac2e.pdf
24 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/7/contents/enacted

**2.3.5** Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Map o Rwydwaith Teithio Llesol y Cyngor, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Tachwedd 2020 a Ionawr 2021 er mwyn deall barn pobl ynghylch llwybrau cerdded a beicio yn eu hardaloedd, gan gynnwys nodi problemau ar lwybr.[25] Cynhelir ymgynghori pellach yng nghyfnod monitro 2020/21 cyn llunio'r fersiwn derfynol o'r Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol.



25 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://www.npt.gov.uk/1410?pr_id=6665

# RHAN 2 - Monitro'r CDLI

# 3 Strategaeth

## 3.1 Strategaeth

**3.1.1** Seiliwyd y CDLl ar strategaeth twf dan arweiniad cyflogaeth, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynnydd mewn cyfraddau gweithgaredd economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol er mwyn cefnogi'r nifer o swyddi a ragwelir, a fydd yn ei dro yn rhoi syniad o nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol. Mae'r dull gweithredu yn sicrhau bod y strategaethau tai a chyflogaeth yn cyfateb i'w gilydd a bod cyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad o lafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

**3.1.2** Mae'r Cynllun yn nodi cyfanswm o 25 amcan wedi'u grwpio o dan y themâu hyn:

- Adeiladu cymunedau iach a chynaliadwy;
- Hybu economi gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd;
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a
- Pharchu unigrywiaeth.

**3.1.3** Gan gadw'r amcanion hyn mewn cof, nod Strategaeth y CDLl yw:

**Hwyluso twf oddi mewn i CNPT, gyda ffocws ar goridor yr arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r cymoedd**

**3.1.4** Trwy fonitro dangosyddion y CDLl, mae modd asesu i ba raddau mae polisïau'r Cynllun yn llwyddo i gyflawni'r strategaeth. Mae'r Tabl isod yn rhoi trosolwg crynodol.

**Fframwaith Monitro'r CDLl**

| Asesiad | Gweithredu | Nifer y Dangosyddion ym mhob Categori (2020/21) |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau | 35 |
| Nid yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd | Gal fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLl mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol | Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu | 7 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu | Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLl yn destun proses adolygu | 0 |

| Asesiad | Gweithredu | Nifer y Dangosyddion ym mhob Categori (2020/21) |
|---|---|---|
| Dangosydd wedi'i gwblhau | Dim angen monitro na gweithredu pellach | 15 |
| Nid yw'r dangosydd yn cael ei fonitro bellach, gan fod TAN1 wedi'i ddileu (Gweler Pennod 6 am ragor o wybodaeth) | | 1 |
| Dim data ar gael eto | | 2 |

**3.1.5** Ceir dadansoddiad manylach yn y penodau sy'n dilyn (Penodau 4-10).

# 4 Polisiau Trosfwaol

**4.0.1** Mae CDLl CNPT yn cynnwys pedwar polisi strategol trosfwaol:

- Polisi Strategol (PS) 1 'Newid yn yr hinsawdd'
- PS2 'Iechyd'
- PS3 'Cymunedau cynaliadwy'
- PS4 'Seilwaith'

O dan y polisïau strategol trosfwaol hyn mae nifer o bolisïau strategol ardal-benodol a phwnc-benodol. Mae'r Bennod hon yn adrodd am ganfyddiadau dangosyddion y polisïau strategol trosfwaol, ac mae'r penodau sy'n dilyn yn adrodd am ganfyddiadau'r ardal a dangosyddion polisïau strategol pwnc-benodol.

## 4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd

**4.1.1** Mae PS1 'Newid yn yr hinsawdd' yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar yr amgylchedd a datblygiad CNPT yn y dyfodol, ac mae'n amlinellu nifer o fesurau i ddelio ag achosion newid yn yr hinsawdd (mesurau lliniaru) a mesurau yn ymwneud â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd (dulliau addasu).

**4.1.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS1 yn Fframwaith Monitro'r CDLl:

- **Dangosydd 1:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Mae'r dangosydd hwn wedi sbarduno adolygiad ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 2:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. Mae'r dangosydd hwn wedi sbarduno adolygiad ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 3:** Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl.
- **Dangosydd 4:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.
- **Dangosydd 5:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1.
- **Dangosydd 6:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C2.

**4.1.3** O ganlyniad i arfarnu dangosyddion 1 a 2 yn AMB y llynedd, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS1 yn cyflawni ei amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl. Mae arfarniadau dangosyddion 3, 4 a 5 yn dal i ddangos bod yr agweddau hyn ar y polisi yn dal i gyrraedd eu targedau. Mae Dangosydd 6 hefyd bellach wedi sbarduno adolygiad o'r polisi (gweler isod).

## Dangosydd 3: Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl.

**Tabl 4.1.1 PS1 - Newid yn yr hinsawdd Dangosydd 3**

| Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 3 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl. | | | |
| **Amcan** | OB1 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | PS16; BE1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y tir maes glas a gollwyd nad oedd wedi'i ddyrannu yn y CDLl. | Dim tir glas yn cael ei golli yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Colli tir glas yn groes i'r fframwaith Polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad** | | | | |

- 16 achos o gymeradwyo ar safleoedd tir glas oedd heb eu dyrannu: Y rhan fwyaf yn anheddau unigol neu'n ddatblygiadau preswyl bach, ynni adnewyddadwy, mwynau neu amaeth. Un datblygiad tai mwy o faint.
- Ni farnwyd bod tir llwyd amgen ar gael yn ymarferol mewn lleoliad addas ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau a gymeradwywyd.
- Bernir bod pob cynnig yn unol â Pholisi BE1.

## Dangosydd 4: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.

**Tabl 4.1.2 PS1 - Newid yn yr hinsawdd Dangosydd 4**

| Polisi Strategol SP1 Dangosydd 4 | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiateir mewn lleoliadau cyfleusterau cludo nwyddau wedi'u diogelu. | | |
| **Amcan** | OB2, OB21, OB22 | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS1 | **Polisïau Cysylltiedig** | PS20; TR4 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ganiateir mewn lleoliadau cyfleusterau cludo nwyddau wedi'u diogelu. | Ni chaniateir ceisiadau ar safleoedd ar gyfer cludo nwyddau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad** | | | | |

- Ni chafwyd ceisiadau oddi mewn i leoliad cyfleuster nwyddau a ddiogelwyd sy'n cael ei gwmpasu gan Bolisi TR4 (Diogelu Cyfleusterau Nwyddau) yn ystod y cyfnod monitro.
- O ganlyniad nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

## Dangosydd 5: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1.

**Tabl 4.1.3 PS1 - Newid yn yr hinsawdd Dangosydd 5**

| **Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1. | | | |
| **Amcan** | OB1 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1. | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiadau hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus nad yw'n bodloni holl ofynion TAN 15. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad** | | | | |

- Cymeradwywyd saith cynnig o fewn neu'n rhannol o fewn Parth C1. Un cynnig amlinellol ar gyfer datblygiad tai o 50 uned (y mae C1 ac C2 yn effeithio arno), tri ar gyfer newid defnydd, dau adeilad newydd, un ar gyfer mynediad newydd a gwaith llifogydd (y mae C1 ac C2 yn effeithio arno).
- Roedd dau o'r cynigion ar gyfer datblygiadau agored iawn i niwed (y datblygiad tai a newid defnydd i fwyty a llety gwesteion).
- Barnwyd bod yr holl gynigion yn cydymffurfio â gofynion TAN 15.

## Dangosydd 6: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.

**Tabl 4.1.4 PS1 - Newid yn yr hinsawdd Dangosydd 6**

| Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 6 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewni ardaloedd gorlifdir C2. | | | |
| **Amcan** | OB1 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewni ardaloedd gorlifdir C2. | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiadau hynod fregus mewn ardaloedd gorlifdir C2. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhau, bydd y polisi’n destun proses adolygu. | | | | |
| **Dadansoddiad** | | | | |

- Cymeradwywyd chwe chynnig o fewn neu'n rhannol o fewn Parth C2. Mae pump ohonynt ar gyfer newidiadau defnydd/rhannu safle, ac un ar gyfer mynediad newydd a gwaith llifogydd (y mae C1 ac C2 yn effeithio arno).
- Roedd dau o'r cynigion ar gyfer datblygiadau agored iawn i niwed (newid defnydd o siop ar y llawr gwaelod gyda fflat uwchben i dŷ amlbreswyl a rhannu tafarndy, gan gynnwys ffurfio dwy fflat o un fflat oedd eisoes yn bodoli). Ni chododd Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw wrthwynebiadau mewn egwyddor i'r naill gynnig na'r llall, ac roedd y ddau eiddo eisoes yn ymgorffori defnyddiau preswyl agored iawn i niwed.
- • Barnwyd felly bod y ddau gynnig yn unol â'r gofynion a nodwyd yn TAN 15. Fodd bynnag, o ran monitro gweithrediad polisi PS1 y CDLl, mae cymeradwyo unrhyw ddatblygiad agored iawn i niwed ym mharth DAM C2 yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

## 4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd

**4.2.1** Mae PS2 'Iechyd' yn bolisi strategol trosfwaol sy'n ceisio lleihau lefelau uchel iechyd gwael hirdymor a salwch yn CNPT trwy wneud y canlynol:

- Gofyn bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli mewn mannau cynaliadwy, oddi wrth ffynonellau sŵn, llygredd aer a pherygl llifogydd, ac yn cael eu hadeiladu'n unol â safonau amgylcheddol manwl i gynyddu effeithlonrwydd ynni;
- Ceisio cadw ystod o gyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol hygyrch, er mwyn annog ffordd o fyw sy'n iachach, yn fwy actif ac yn fwy diogel;
- Sicrhau bod yr holl drigolion yn cael mynediad at fannau agored digonol i wella iechyd corff a meddwl;
- Gwella hygyrchedd rhwng cymunedau ac annog teithio llesol lle bynnag y bo modd;
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd i leihau cyfraddau diweithdra a segurdod economaidd; a
- Sicrhau amgylchedd adeiledig a naturiol o safon uchel.

**4.2.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS2:

- **Dangosydd 7**: Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.
- **Dangosydd 8**: Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio.
- **Dangosydd 9:** Paratoi CCA yn ymwneud â dylunio. Cafodd y CCA Dylunio ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017, ac nid oes angen monitro na gweithredu pellach ynghylch y dangosydd hwn.

**4.2.3** Mae arfarnu'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS2 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd monitro'r polisi hwn yn parhau.

**Dangosydd 7: Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.**

**Tabl 4.2.1 PS2 - Iechyd, Dangosydd 7**

| Polisi Strategol SP 2 Dangosydd 7 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | | | |
| **Amcan** | OB2 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS2 | **Polisïau Cysylltiedig** | | PS10, OS2, SC2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi | **Mabwysiadu** | 2016 | Colli un cyfleuster yn groes i'r fframwaith polisi |
| | | **AMB 2017** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| | | AMB 2020 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau | | | | |
| Dadansoddiad: | | | | |
| • O fewn y cyfnod monitro hwn ni chaniatawyd ceisiadau a fyddai'n arwain at golli mannau agored a/neu gyfleusterau cymunedol yn groes i'r fframwaith polisi. | | | | |

**Dangosydd 8: Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.**

**Tabl 4.2.2 PS2 - Iechyd, Dangosydd 8**

| Polisi Strategol SP 2 Dangosydd 8 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd | Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio | | | |
| Amcan | OB2; OB23; OB24 | | | |
| Polisïau Allweddol | PS2 | Polisïau Cysylltiedig | | BE1 |
| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio. | Ni chaniateir cais yn groes i'r fframwaith polisi. | Mabwysiadu | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | AMB 2017 | | |
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| | | AMB 2020 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau | | | | |
| Dadansoddiad: | | | | |
| • Ar wahân i gynigion graddfa fach/perchnogion tai, gwrthodwyd 10 o geisiadau am resymau oedd yn cynnwys sail dylunio yn ystod y cyfnod monitro.<br>• Ni chaniatawyd ceisiadau'n groes i'r fframwaith polisi dylunio. | | | | |

## 4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy

**4.3.1** Bwriad PS3 'Cymunedau cynaliadwy' yw hwyluso cyflwyno rhwydwaith o gymunedau cynaliadwy, iach a chydlynus trwy nodi a gweithredu hierarchaeth aneddiadau, terfynau wedi'u diffinio i aneddiadau, a diogelu cyfleusterau cymunedol.

**4.3.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS3:

- **Dangosydd 10**: Faint o ddatblygiadau sylweddol ar ffurf manwerthu, swyddfeydd a hamdden a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau y tu allan i drefi.
- **Dangosydd 11**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.

**4.3.3** Mae'r arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS3 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd monitro'r polisi hwn yn parhau.

**Dangosydd 10: Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi.**

**Table 4.3.1 Tabl 4.3.1 PS3 - Cymunedau cynaliadwy, Dangosydd 10**

| Polisi Strategol SP 3 Dangosydd 10 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi. | | | |
| **Amcan** | OB2, OB3, OB4 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS3 | **Polisïau Cysylltiedig** | | PS2; SC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi. | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Cymeradwywyd dau gynnig ar gyfer manwerthu/hamdden sylweddol (mwy na 1000m2 ). Un ar gyfer manwerthu a hamdden yng nghanol tref/nghanolfan fanwerthu Castell-nedd a dyraniad manwerthu, un ar gyfer siop fanwerthu y tu allan i'r canol yn anheddiad Castell-nedd.
- Barnwyd bod y ddau gynnig yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi.

## Dangosydd 11: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.

**Tabl 4.3.2 PS3 - Cymunedau cynaliadwy, Dangosydd 11**

| Polisi Strategol SP 3 Dangosydd 11 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau. | | | |
| **Amcan** | OB2, OB3, OB4 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS3 | **Polisïau Cysylltiedig** | | PS2; SC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau. | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Penderfynwyd ar gyfanswm o 21 o geisiadau ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau aneddiadau yn ystod y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 20 o'r rhain.
- Roedd y ceisiadau a gymeradwywyd yn ystod cyfnod y cynllun yn amrywiol, o estyniad i chwarel creigiau caled, mast 90m, dau gais ar gampws y Brifysgol, adeiladau amaethyddol, anheddau amnewid, lle storio i feiciau llogi a gwaith daear i baratoi'r tir ar gyfer y Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd, a fydd yn dod i'r Onllwyn.
- Barnwyd bod pob cais a gymeradwywyd yn unol â Pholisi SC1.
- O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

## 4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith

**4.4.1** Nod PS4 'Gofynion seilwaith' yw sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn gwneud defnydd effeithlon o seilwaith presennol ac yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio a seilwaith newydd lle bo angen (fel y nodir yn a.106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i liniaru effeithiau'r datblygiad.

**4.4.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS4:

- **Dangosydd 12**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 13**: Paratoi CCA yn ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio. Cafodd y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen gweithredu pellach na monitro ar gyfer y dangosydd hwn

**4.4.3** O ganlyniad i arfarnu dangosydd 12 yn AMB y llynedd, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS4 yn cyflawni ei amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl.

# 4 . Polisiau Trosfwaol

# 5 Polisiau a Seiliwyd ar Ardaloedd

**5.0.1** Mae CDLl CNPT yn cynnwys dwy ardal strategaeth (Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ac Ardal Strategaeth y Cymoedd).

**Figure 5.1 NPT LDP Strategy Areas**




**5.0.2** Mae CDLl CNPT yn cynnwys polisïau strategol ar sail ardal ar gyfer y ddwy ardal strategaeth:

- PS5 'Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir'; a
- PS6 'Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd'.

## 5.1 Polisi Strategol 5 Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfodir

**5.1.1** Mae PS5 'Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir' yn nodi sut bydd y strategaeth i hwyluso twf yn CNPT yn cael ei chymhwyso yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir trwy nifer o fesurau a pholisïau ardal-benodol, gan gynnwys nifer o ddyraniadau tai, dyraniadau cyflogaeth, cynlluniau adfywio defnydd cymysg, campws prifysgol a nifer o gynlluniau priffyrdd.

**5.1.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS5:

- **Dangosydd 14**: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosyddion 15-18**: Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol (AAS) Coed Darcy (tai, cyflogaeth, Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy a gwelliannau i C43 (yr M4)). Cafodd y dangosyddion hyn eu sbarduno yn 2019 ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosyddion 19 a 20**: Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr (tai; cyflogaeth). Cafodd y dangosyddion hyn eu sbarduno yn 2020 ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 21**: Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr (Manwerthu).
- **Dangosydd 22**: Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr (Cwblhau Ffordd yr Harbwr (FfDdY)). Cwblhawyd Ffordd yr Harbwr yn 2014; nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 23**: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â Glannau'r Harbwr ym Mhort Talbot a Fframwaith Datblygu Canol y Dref. Nid yw'r dangosydd hwn yn cael ei fonitro bellach yn dilyn canfyddiadau AMB 2019.
- **Dangosyddion 24 a 25**: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (tai a manwerthu).
- **Dangosyddion 26 a 27**: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (tai a manwerthu). Mae'r datblygiad hwn bellach wedi'i gwblhau, ac o ganlyniad nid yw'r dangosyddion hyn yn cael eu monitro bellach.
- **Dangosyddion 28 a 29**: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (tai a thwristiaeth). Cafodd y dangosyddion hyn eu sbarduno yn 2020 ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 30**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith monitro.

**5.1.3** O ganlyniad i arfarnu dangosyddion 14-20, 23, 28 a 29 mewn AMBau blaenorol a'r rhesymau a nodwyd uchod, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS5 yn cyflawni ei holl amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl. Mae arfarniadau'r dangosyddion sy'n weddill yn parhau i ddangos bod yr agweddau hyn ar y polisi yn dal i gyrraedd eu targedau (gweler isod).

## Dangosydd 21: Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr.

**Tabl 5.1.1 PS5 – Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 21**

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 21</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB5; OB13</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>PS5</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SRA2; PS12; R1/3</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr.</td><td rowspan="5">Cyflawni'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol y Dref ym Mhort Talbot.</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="5">Ni chyflawnir y datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol y Dref ym Mhort Talbot.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2020</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad</td></tr>
<tr><td colspan="5">• Dim ceisiadau manwerthu yng Nglannau'r Harbwr yn ystod y cyfnod monitro.<br>• Mae busnes sefydledig sydd eisoes yn bodoli yn parhau i fasnachu'n unol â'r fframwaith datblygu.</td></tr>
</table>

## Dangosydd 24: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.

**Tabl 5.1.2 PS5 – Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 24**

<table>
<tr><th colspan="4">Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 24</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="3">Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="3">OB5</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>PS5</td><td>Polisïau Cysylltiedig</td><td>CCRS1/1 PS7, H1/7</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td>Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swm y datblygiad newydd a ganiatwyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd. | Cyflwyno 50 o unedau tai newydd, y disgwylir iddynt gychwyn o 2016/17. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chyflawnir y datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd o 2016/17. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad** | | | | |
| • 12 uned yn cael eu hadeiladu gan Grŵp Tai Coastal<br>• Ni dderbyniwyd rhagor o geisiadau preswyl yn ystod y cyfnod monitro | | | | |

**Dangosydd 25: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.**

**Tabl 5.1.3 PS5 – Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 25**

| **Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 25** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCRS1/1; PS12, R1/1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd. | Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd: Cyfnod 1 erbyn 2016; Cyfnod 2 erbyn 2020. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chyflawnir elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yn unol â'r terfynau amser a nodwyd. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad** | | | | |
| • Rhoddwyd cydsyniad ychwanegol ar gyfer rhan o gyfnod 2 o gynllun canol y dref (manwerthu a datblygiad hamdden) yn 2020.<br>• Mae'r holl gynlluniau manwerthu cyfnod 2 yn awr yn cael eu cyflawni. | | | | |

**Dangosydd 30: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.**

**Tabl 5.1.4 PS5 – Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 30**

| **PS5 Dangosydd 30** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCUC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi Prifysgol Abertawe i gael ei gyflwyno erbyn 2015:<br><br>Mai 2013 - Gwaith i gychwyn.<br><br>Mai 2014 - Cwblhau'r adeiladau cyntaf.<br><br>Mai 2015 - Cwblhau'r holl adeiladau heblaw'r rhai preswyl.<br><br>Medi 2015 - Cwblhau llety'r myfyrwyr. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y campws ym mis Awst 2012, a chymeradwywyd materion dilynol a neilltuwyd ar gyfer Cyfnod 1 ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r CDLl yn dyrannu tir i ddarparu ar gyfer datblygu oddi mewn i'r cais amlinellol sydd eisoes yn bodoli ac ardaloedd ychwanegol ar y safle, er mwyn ehangu ymhellach. Mae tir ar gael hefyd i'r gorllewin o'r safle, oddi mewn i ffin weinyddol Cyngor Abertawe.<br>• Mae'r targedau a geir yn y fframwaith monitro hwn yn cyfeirio at ddatblygu Cyfnod 1a o'r Campws, a oedd yn cynnwys llawer o'r prif adeiladau oedd yn ofynnol er mwyn i'r campws agor yn ffurfiol ym mis Medi 2015, megis y Neuadd Fawr, yr Hwb Arloesedd, y Cyfleuster Gweithgynhyrchu, llety preswyl ac adeiladau academaidd.<br>• O fewn y cyfnod monitro, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer pedwar cais: un (P2020/0429) i ddatblygu Canolfan newydd ar gyfer adeilad Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol ac adeilad storfa nwy; a thri ar gyfer amrywio amodau (P2020/0353, P2020/0354 a P2021/0129). Roedd pob un o'r rhain yn dderbyniol ac yn unol â Pholisi CCUC1. | | | | |

## 5.2 Polisi Strategol 6 Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

**5.2.1** Mae PS6 'Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd' yn nodi'r prif fesurau a ddefnyddir i weithredu'r strategaeth ofodol, sef adfywio Ardal Strategaeth y Cymoedd. Mae'r strategaeth yn troi o gwmpas gwella gwydnwch economaidd, gydag anogaeth twristiaeth, cyflogaeth ar raddfa fach a datblygiadau economaidd eraill, arallgyfeirio oddi wrth ddiwydiannau traddodiadol, a nodi meysydd twf lle bydd datblygiad wedi'i grynhoi, gyda'r nod o ledaenu'r effeithiau adfywio dros ardal ehangach.

**5.2.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS6:

**Dangosydd 31**: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.

**Dangosydd 32**: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.

**Dangosydd 33**: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf

**Dangosyddion 34 a 35**: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd (tai a manwerthu).

**Dangosydd 36**: Paratoi CCA cysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. Nid yw'r dangosydd hwn yn cael ei fonitro bellach yn dilyn canfyddiadau AMB 2019.

**Dangosydd 37**: Nifer y cynigion gwaith byw a ganiatawyd. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.

**Dangosydd 38**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola

**5.2.3** O ganlyniad i arfarnu dangosyddion 31, 32, 36 a 37 mewn AMBau blaenorol a'r rhesymau a nodwyd uchod, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS6 yn cyflawni ei holl amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl.

**5.2.4** Mae arfarnu Dangosyddion 33, 34 a 38 eleni wedi dangos nad yw'r dangosyddion hyn chwaith yn cyflawni eu hamcanion bellach, tra bod arfarniad dangosydd 35 yn dod i'r casgliad, er nad yw'r dangosydd hwn wedi cael ei sbarduno, y bydd angen ailasesu dyraniad Rhodfa'r Parc (gweler isod).

**Dangosydd 33: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf.**

**Tabl 5.2.1 PS6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd, Dangosydd 33**

| **PS6 Dangosydd 33 – Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf. | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | |
| **Polisïau allweddol** | PS6 | **Polisïau cysylltiedig** | | VRS1;PS7; H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Sbardun** |
| Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf. | 2011/12 - 5 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarperir yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn syrthio o dan y gofyniad cronnol ddwy flynedd yn olynol. |
| | 2012/13 - 0 | **AMB 2017** | | |
| | 2013/14 - 9 | **AMB 2018** | | |
| | 2014/15 - 2 | **AMB 2019** | | |
| | 2015/16 - 0 | **AMB 2020** | | |
| | 2016/17 - 0<br>2017/18 - 0<br>2018/19 - 0<br>2019/20 - 21<br>2020/21 - 45<br>2021/22 - 37<br>2022/23 - 37<br>2023/24 - 37<br>2024/25 - 36<br>2025/26 – 35 | | | |
| Gweithredu | | | | |

| |
|---|
| Bydd y Polisi'n destun proses adolygu. |
| Dadansoddiad: |
| Mae niferoedd yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf wedi syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol (2019/20 a 2020/21). Cwblhawyd 17 o unedau yn yr ardal hyd yma. Fodd bynnag, mae'r gwaith adeiladu wedi ailgychwyn ar ddyraniad H1/LB/27 Heol y Glyn ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu gychwyn yn fuan iawn ar H1/LB/28, y Neuadd Les.<br><br>O ganlyniad, bydd canfod cyfleoedd i gyflawni tai fel rhan o Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad y CDLl. |

## Dangosydd 34: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd

**PS6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd, Dangosydd 34**

| **PS6 Dangosydd 34 – Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | |
| **Polisïau allweddol** | PS6 | **Polisïau cysylltiedig** | | VRS1/1; PS7; H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Sbardun** |
| Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | Darparu 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir eu cychwyn o 2020/21. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chyflwynir y datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd o 2020/21. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| Gweithredu | | | | |
| Bydd y Polisi'n destun proses adolygu. | | | | |
| | | | | |

- Ni chafwyd tystiolaeth o ddiddordeb gan berchnogion presennol y tir (x3) mewn cyflwyno'r safle hwn yn ystod y cyfnod monitro, ac o ganlyniad ni chyrhaeddwyd y targed.

### 5.2.5 Dangosydd 35: Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.

**Tabl 5.2.2 PS6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd, Dangosydd 35**

| PS6 Dangosydd 35 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | | |
| **Polisïau allweddol** | PS6 | **Polisïau cysylltiedig** | | VRS1/1; PS12; R1/4 | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Sbardun** | |
| Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | Cyflawni elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd, yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chyflawnir elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | |
| | | **AMB 2017** | | | |
| | | **AMB 2018** | | | |
| | | **AMB 2019** | | | |
| | | **AMB 2020** | | | |
| **Gweithredu** | | | | | |
| Dyraniad i gael ei ailasesu. Monitro i barhau. | | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Nid oes datblygiad manwerthu wedi digwydd yn ystod y cyfnod monitro. | | | | | |

### Dangosydd 38: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola.

**Tabl 5.2.3 PS6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd, Dangosydd 38**

| **PS6 Dangosydd 38** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola |
| **Amcan** | OB6 |

| Polisïau allweddol | PS6 | Polisïau cysylltiedig | | PS13; TO3/1 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Sbardun** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Bydd y dyraniad yn Rheola wedi'i gyflwyno erbyn 2021. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r dyraniad yn Rheola wedi'i gyflwyno erbyn 2021 |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Bydd y dyraniad yn destun proses adolygu. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mae'r safle yn Rheola yn dal yn destun cais cynllunio amlinellol sydd â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio, yn amodol ar lofnodi cytundeb a.106. Mae'r cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, dan arweiniad twristiaeth, gyda hyd at 100 o unedau llety gwyliau a chyfadeilad hamdden, ac mae hefyd yn caniatáu ar gyfer elfen breswyl i alluogi'r datblygiad. Gan nad yw'r safle wedi cael ei gyflawni erbyn 2021, cyrhaeddwyd y pwynt sbarduno. Deellir, fodd bynnag, bod trafodaethau'n parhau ynghylch datblygu'r safle. | | | | |

# 6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

**6.0.1** Yn dilyn ymlaen o’r polisïau ardal, mae polisïau pynciol CDLl CNPT yn cael eu grwpio o dan y themâu canlynol:

- Adeiladu cymunedau iach, cynaliadwy;
- Hybu economi gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd;
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a
- Pharchu unigrywiaeth

**6.0.2** O fewn pob thema mae polisïau strategol a pholisïau manwl. Yn unol â Fframwaith Monitro’r CDLl, mae’r AMB yn adrodd am fynegeion sy’n gysylltiedig â’r polisïau strategol canlynol:

- PS7 'Gofyniad o ran Tai';
- PS8 'Tai fforddiadwy';
- PS9 'Sipsiwn a theithwyr'; a
- PS10 'Mannau agored'

## 6.1 Polisi Strategol 7 Y Gofyn o ran Tai

**6.1.1** Mae PS7 'Gofyniad o ran Tai' yn manylu ar y tai sy’n ofynnol yn ystod cyfnod y Cynllun (7,800 o unedau yn ystod y cyfnod 2011-2026).

**6.1.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS7:

- **Dangosydd 39**: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl.
- **Dangosydd 40**: Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o’r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol (TAN1).

**6.1.3** Nid yw’r Cyngor yn adrodd ar ddangosydd 40 bellach, yn dilyn diddymu TAN1 ym mis Mawrth 2020. Yn hytrach, yn unol â’r dull gweithredu a gyflwynwyd trwy’r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (2020), mae’r Cyngor wedi paratoi Taflwybr Tai wedi’i ddiweddaru ac wedi cymharu’r tai a gyflawnwyd yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (GBC). Rhoddir sylw i hyn ar ôl dangosydd 39.

**6.1.4** O ganlyniad i arfarnu dangosydd 39 a’r dadansoddiad o’r taflwybr tai a’r GBC, daethpwyd i’r casgliad nad yw PS7 yn cyflawni ei amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI (gweler isod).

**Dangosydd 39: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.**

**Tabl 6.1.1 PS7 - Gofyniad o ran Tai**

| **PS7 Dangosydd 39** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI. | | | |
| **Amcan** | OB7 | | | |
| **Polisïau allweddol** | PS7 | **Polisïau cysylltiedig** | | PS2, H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Sbardun** |
| Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI. | Gwneir cyfanswm darpariaeth o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026.<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12 - 262<br>2012/13 - 287<br>2013/14 - 301<br>2014/15 - 386<br>2015/16 - 486<br>2016/17 - 549<br>2017/18 - 625<br>2018/19 - 686<br>2019/20 - 698<br>2020/21 - 676<br>2021/22 - 647<br>2022/23 - 614<br>2023/24 - 553<br>2024/25 - 542 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarperir yn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2025/26 - 488 | | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Bydd y Polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**6.1.5** Mae'r CDLl yn darparu ar gyfer 8,760 o unedau tai er mwyn sicrhau'r 7,800 o anheddau sy'n ofynnol i gyflawni'r strategaeth twf dan arweiniad yr economi erbyn 2026. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut cyflawnwyd tai yn erbyn y Targedau Blynyddol o fewn y fframwaith monitro:

**Tabl 6.1.2 Cyfanswm y Tai a gwblhawyd fesul Blwyddyn (CDLl CNPT)**

| Blwyddyn | Targed Blynyddol (CDLl CNPT) | Union Nifer y Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol (CDLl CNPT) | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Tai Cronnol a Gwblhawyd yn erbyn y Targed (CDLl CNPT) | Tai Cronnol a Gwblhawyd fel % o'r Targed (CDLl CNPT) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 262 | 277 | 262 | 277 | 15 | 106% |
| 2012/13 | 287 | 303 | 549 | 580 | 31 | 106% |
| 2013/14 | 301 | 262 | 850 | 842 | -8 | 99% |
| 2014/15 | 386 | 314 | 1,236 | 1,156 | -80 | 94% |
| 2015/16 | 486 | 214 | 1,722 | 1,370 | -352 | 80% |
| 2016/17 | 549 | 184 | 2,271 | 1,554 | -717 | 68% |
| 2017/18 | 625 | 119 | 2,896 | 1,673 | -1,223 | 58% |
| 2018/19 | 686 | 276 | 3,582 | 1,949 | -1,633 | 54% |
| 2019/20 | 698 | 259 | 4,280 | 2,208 | -2,072 | 52% |
| 2020/21 | 676 | 149 | 4,956 | 2,357 | -2,599 | 48% |

**6.1.6** Dengys y tabl uchod fod cyflawni tai ar draws CNPT yn dal yn is na'r targedau a geir yn y fframwaith monitro. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ni fu modd asesu'n gywir faint o dai a gwblhawyd trwy ymweliadau safle, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Casglwyd ffigurau trwy drafod gyda datblygwyr ac adolygu data cwblhau o gofnodion y Cyngor ynghylch Rheoli Adeiladu a Threth Cyngor. Er na fydd hyn yn cynnwys yr holl dai a gwblhawyd, dyma'r amcangyfrif gorau oedd yn bosibl eleni, a bydd unrhyw unedau a gollwyd yn cael eu haddasu yn AMB y flwyddyn nesaf, yn amodol ar ailgychwyn ymweliadau safle. Cofnodwyd cyfanswm o 149 o dai a gwblhawyd ar safleoedd mawr a bach. Mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na'r targed o 676 o anheddau yn y fframwaith monitro.

**6.1.7** Ers dyddiad sylfaen y CDLl (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd yw 2,357 o anheddau. O gymharu â'r targed cronnol blynyddol o 4,956 yn y fframwaith monitro, mae hyn yn dangos bod y tai a gwblhawyd yn dal i syrthio o dan y targed, ac mai 48% yn unig o'r targed cronnol blynyddol a gyflawnwyd hyd yma.

**6.1.8** Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd LIC y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), oedd yn cyflwyno gofyniad bod AMBau ar gyfer cynlluniau a fabwysiadwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr yn cynnwys Taflwybr Tai wedi'i ddiweddaru, ac yn cymharu union nifer y tai a gyflawnwyd yn erbyn y GBC.

**6.1.9** GBC CNPT yw 495 o unedau, ac fe'i dangosir â'r llinell ddu yn y graff a gyflwynir yn Ffigur 6.1 isod.

**Tabl 6.1.3 Cyfanswm y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn (GBC)**

| Blwyddyn | Targed (GBC) | Union Nifer y Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol (GBC) | Nifer Cronnol y Tai a Gwblhawyd | Nifer Cronnol y Tai a Gwblhawyd yn erbyn y Targed (GBC) | Nifer Cronnol y Tai a Gwblhawyd fel % (GBC) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011/12** | 495 | **277** | 495 | **277** | -218 | 56% |
| **2012/13** | 495 | **303** | 990 | **580** | -410 | 59% |
| **2013/14** | 495 | **262** | 1,485 | **842** | -643 | 57% |
| **2014/15** | 495 | **314** | 1,980 | **1,156** | -824 | 58% |
| **2015/16** | 495 | **214** | 2,474 | **1,370** | -1,105 | 55% |
| **2016/17** | 495 | **184** | 2,970 | **1,554** | -1,416 | 52% |
| **2017/18** | 495 | **119** | 3,465 | **1,673** | -1,792 | 48% |
| **2018/19** | 495 | **276** | 3,960 | **1,949** | -2,011 | 49% |
| **2019/20** | 495 | **259** | 4,455 | **2,208** | -2,247 | 50% |
| **2020/21** | 495 | **149** | 4,950 | **2,357** | -2,593 | 48% |

**6.1.10** Mae graff y taflwybr (Ffig. 6.1) a'r tabl mwy manwl, 'Cyflawni Tai yn CNPT' (Ffig. 6.2), yn dangos y diffyg cronnol o dai a gyflawnwyd hyd yma. Mae union nifer y tai a gwblhawyd wedi cael eu plotio ar gyfer y cyfnod monitro hwn ac ar gyfer blynyddoedd blaenorol, ac mae'n dangos bod nifer y tai a gyflawnwyd, bob blwyddyn ers dyddiad sylfaen y CDLl, wedi bod yn sylweddol is na llinell y GBC, sef 495 o unedau.

**6.1.11** Ar sail graddio a chyflwyno safleoedd (a welir yn Atodiad B), mae'r cyflenwad tai ar gyfer blynyddoedd i ddod wedi cael ei blotio ar y graff ar gyfer pob un o'r blynyddoedd sy'n weddill yn y cynllun. Oherwydd y tangyflawniad sylweddol ym mhob blwyddyn o'r cynllun hyd yma, cydnabyddir na fydd y CDLl yn cyflawni'r gofyniad llawn o ran tai, sef 7,800 o gyfanswm y cyflenwad tai o 8,760 erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. Cyfanswm y tai a gwblhawyd hyd yma a'r cyflenwad sy'n weddill yw 5,551, sydd yn fras 36.6% yn llai na'r ddarpariaeth dai wreiddiol, sef 8,760.

**6.1.12** Nododd Adroddiad Adolygu'r CDLl, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, y diffyg yn nifer y tai a gyflawnwyd fel un o'r prif faterion y byddai angen rhoi sylw iddo yn y CDLlA. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn ymdrin â'r diffyg fel rhan o'r broses adolygu sydd i ddod.

**Ffigur 6.1 Y Taflwybr Tai (2020)**




**6.1.13** Bu'r Taflwybr Tai yn destun cyfarfod rhanddeiliaid ym mis Awst 2021 lle trafodwyd y fethodoleg, y rhagdybiaethau a'r casgliadau a chytuno arnynt. Mae'r taflwybr tai yn rhagfynegi cynnydd graddol yn y tai a gwblheir yn ystod traean olaf cyfnod y cynllun, gan gyrraedd uchafbwynt o 913 o unedau yn 2025/26. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod rhagfynegi'r cyflawniad hwn yn uchelgeisiol, ond bydd y taflwybr yn cael ei adolygu'n flynyddol, a rhagwelir y bydd unrhyw newidiadau i dueddiadau o ran safleoedd annisgwyl, safleoedd bach, a chyfraddau adeiladu ar safleoedd mawr yn cael eu newid. Yn nhaflwybrau'r dyfodol, gellir adlewyrchu effeithiau Covid-19 ac argaeledd deunyddiau a llafur (contractwyr) ar gyflawni tai yn ogystal

**Ffigur 6.2 Cyflawni Tai yng Nghastell-nedd Port Talbot**

| LDP Year | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 (01/04/26-31/12/26) |
| Actual completions large | 221 | 247 | 204 | 267 | 162 | 146 | 70 | 214 | 244 | 102 | | | | | | |
| Actual completions small sites | 56 | 56 | 58 | 47 | 52 | 38 | 49 | 62 | 15 | 47 | | | | | | |
| Anticipated completions allocated sites during year | | | | | | | | | | | 12 | 65 | 190 | 389 | 584 | 440 |
| Anticipated landbank completions during year | | | | | | | | | | | 118 | 195 | 196 | 151 | 244 | 170 |
| Anticipated completions large windfall during year | | | | | | | | | | | 0 | 0 | 35 | 35 | 35 | 35 |
| Anticipated completions small windfall during year | | | | | | | | | | | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |
| Total actual completions during year | 277 | 303 | 262 | 314 | 214 | 184 | 119 | 276 | 259 | 149 | | | | | | |
| Anticipated annual build rate | | | | | | | | | | | 180 | 310 | 471 | 625 | 913 | 695 |

## 6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy

**6.2.1** Nod CDLl CNPT yw cyflawni cyfuniad a chyflenwad priodol o dai. Mae PS8 'Tai fforddiadwy' yn cyflwyno'r gofyniad i gyflawni tai fforddiadwy yn ystod cyfnod y cynllun (1,200 o unedau tai fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun, sef 2011-2026) a'r dull o ymdrin â chyflawni tai fforddiadwy.

**6.2.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS8:

- **Dangosydd 41**: Nifer yr anheddau net ychwanegol a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl.
- **Dangosydd 42**: Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws y chwe ardal is-farchnad (1) Port Talbot; 2) Castell-nedd; 3) Pontardawe; 4) Cymoedd Nedd a Dulais; 5) Cwm Tawe a Dyffryn Aman; a 6) Cwm Afan). Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 43**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd oedd yn eithriadau o ran tai fforddiadwy. Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 44**: Paratoi CCA yng nghyswllt tai fforddiadwy. Cafodd y CCA tai fforddiadwy ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**6.2.3** Mae arfarnu'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad nad yw PS8 yn cyflawni ei amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl

**Dangosydd 41: Nifer yr anheddau net ychwanegol a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl.**

**Tabl 6.2.1 PS8 - Tai fforddiadwy, Dangosydd 41**

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 8 Dangosydd 41</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB8</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>PS8</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>PS2; AH1</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl</td><td rowspan="4">Darparu 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026.<br><br>Targedau Blynyddol:<br><br>2011/12 - 7<br><br>2012/13 - 5<br><br>2013/14 - 22</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 - 37<br>2015/16 - 72<br>2016/17 - 90<br>2017/18 - 115<br>2018/19 - 130<br>2019/20 - 124<br>2020/21 - 120<br>2021/22 - 111<br>2022/23 - 102<br>2023/24 - 90<br>2024/25 - 89<br>2025/26 - 86 | | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Bydd y Polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**6.2.4** Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos yr unedau tai fforddiadwy a gyflawnwyd trwy'r system gynllunio (h.y. trwy gytundebau a.106) yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro:

**Tabl 6.2.2 Tai fforddiadwy a Gwblhawyd fesul Blwyddyn**

| Blwyddyn | Targedau Blynyddol | Union Nifer yr Unedau Tai Fforddiadwy a Gyflwynwyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 7 | **11** | 7 | **11** | **4** |
| 2012/13 | 5 | **0** | 12 | **11** | **-1** |
| 2013/14 | 22 | **0** | 34 | **11** | **-23** |
| 2014/15 | 37 | **23** | 71 | **34** | **-37** |
| 2015/16 | 72 | **8** | 143 | **42** | **-101** |
| 2016/17 | 90 | **0** | 233 | **42** | **-191** |
| 2017/18 | 115 | **8** | 348 | **50** | **-298** |
| 2018/19 | 130 | **0** | 478 | **50** | **-428** |
| 2019/20 | 124 | **18** | 602 | **68** | **-534** |

| Blwyddyn | Targedau Blynyddol | Union Nifer yr Unedau Tai Fforddiadwy a Gyflwynwyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 120 | **4** | 722 | **72** | **-650** |

**6.2.5** Dengys y tabl uchod fod cyflawni unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio ar draws CNPT yn parhau'n sylweddol is na'r targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2019/20, cyflawnwyd 4 o unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio, yn erbyn targed blynyddol o 120 o unedau. Hefyd derbyniwyd swm a gymudwyd o £15,000 yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y ffigur hwn yn is na'r targed, mae nifer y tai fforddiadwy a gyflawnwyd at ei gilydd yn sylweddol. Roedd tua thraean o'r holl unedau tai a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn fonitro hon yn unedau tai fforddiadwy, llawer ohonynt wedi'u cyflawni gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCiaid) yn sgîl y Grant Tai Cymdeithasol.

**6.2.6** Ers dyddiad sylfaen y CDLl (2011), cwblhawyd cyfanswm o 72 o unedau tai fforddiadwy. Er bod cyflawni unrhyw nifer o dai fforddiadwy yn gadarnhaol, gan y bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gydlyniad cymunedol ac yn helpu i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy yn CNPT, o'i gymharu â'r targed blynyddol cronnol, sef 722, gwelir bod y tai a gwblhawyd bellach yn sylweddol o dan y targed, ac mai 10.0% yn unig o'r targed blynyddol cronnol a gyflawnwyd hyd yma.

**6.2.7** Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflawni tai fforddiadwy a chyflawni tai yn fwy cyffredinol, ac mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl yn dod trwy'r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Mae nifer o safleoedd a ddyrannwyd wedi cael eu cyflawni gan LCCiaid, ond dim ond trwy gymorth y Grant Tai Cymdeithasol y mae'r safleoedd yn dod yn ddichonadwy.

**6.2.8** Gan fod pwynt sbarduno'r polisi wedi'i gyrraedd a'i fod yn amlwg nad yw'r polisi'n cyflawni ei amcanion, bydd yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad. Rhoddir sylw i'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar gyflawni tai, gan gynnwys lefel a dosbarthiad gofodol twf, dichonoldeb safleoedd a chyfyngiadau presennol ar safleoedd.

### 6.3 Polisi Strategol 9 Sipsiwn a Theithwyr

**6.3.1** Mae gan CNPT Gymuned sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr. Mae PS9 'Sipsiwn a Theithwyr' yn darparu fframwaith polisi ar gyfer sicrhau bod darpariaeth ddigonol o leiniau i ddiwallu anghenion y gymuned yn ystod cyfnod y Cynllun, trwy ddyrannu safle a darparu polisi meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau am safleoedd newydd.

**6.3.2** Rhestrir y dangosydd canlynol ar gyfer PS9:

- **Dangosydd 45:** Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw; nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol; nifer y gwersyllfeydd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol; a'r angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)

**6.3.3** Trwy arfarnu'r dangosydd daethpwyd i'r casgliad bod PS9 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y monitro ar y polisi hwn yn parhau.

**Dangosydd 45: Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw. Nifer y cynigion a ganiatawyd yn flynyddol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb awdurdod yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol. Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)**

**Tabl 6.3.1 PS9 - Sipsiwn a Theithwyr, Dangosydd 45**

| Polisi Strategol SP 9 Dangosydd 45 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw.<br><br>Nifer y cynigion a ganiatawyd yn flynyddol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb awdurdod yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol.<br><br>Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn GTAA | | | |
| **Amcan** | OB9 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS9 | **Polisïau Cysylltiedig** | | PS2; GT1 ; GT2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw.<br><br>Nifer y cynigion a ganiatawyd yn flynyddol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. | Darperir 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017.<br><br>Darperir 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022. | **Mabwysiadu** | 2016 | Methiant i ddarparu'r 4 llain yng Nghae Carw erbyn 2017.<br><br>Methiant i ddarparu'r 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb awdurdod yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol.<br><br>Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn GTAA | Darperir 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026. | **AMB 2020** | | Methiant i ddarparu 9 llain (ar safle priodol / neu yng Nghae Garw) erbyn 2026. |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Nododd GTAA 2012 fod angen 4 llain erbyn 2017, 7 llain erbyn 2022 a 9 llain erbyn 2026.
- Ar y cychwyn, roedd y Cyngor yn bwriadu datblygu safle Cae Garw, Margam fesul 3 cham, i gyrraedd y targedau tymor byr, canolig a hir a nodwyd yn GTAA 2012. Fodd bynnag, oherwydd bod angen cymaint o waith paratoi ar y safle, ac i sicrhau cost-effeithiolrwydd a chyflawni effeithlon, penderfynodd y Cyngor roi 11 llain ar waith yn y tymor byr, er mwyn diwallu'r angen gofynnol hyd at 2022.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr 11 llain yn gynnar yn 2015, a phryd hynny cyflwynodd y Cyngor gais llwyddiannus am gyllid o Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr LIC ar gyfer yr estyniad. Wedi hynny, cwblhawyd yr estyniad (11 o leiniau) yng ngwanwyn 2016, yn unol â thelerau'r grant. O ganlyniad, mae'r targedau polisi, sef cyflawni 4 llain erbyn 2017 a 7 llain erbyn 2022 fel ei gilydd wedi cael eu cyflawni.
- Daeth yr asesiad diweddaraf, GTAA 2016, i'r casgliad bod yr 11 o leiniau a ddarparwyd yng Nghae Garw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned hyd at 2021.
- Yn ystod y cyfnod monitro gwrthodwyd un cais cynllunio am amrywiol resymau, gan gynnwys y ffaith bod y cais yn groes i Bolisi GT2 oedd yn darparu lleiniau digonol i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr hyd at 2021.
- Dim ond un wersyllfa heb awdurdod a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro, a dim ond am rai dyddiau yr oedd hynny, felly ni fu gofyn gweithredu ymhellach.
- Mae GTAA pellach i gael ei gynnal yn 2021 a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2022.

## 6.4 Polisi Strategol 10 Mannau Agored

**6.4.1** Mae PS10 'Mannau agored' yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn darparu ar gyfer anghenion mannau agored preswylwyr a chyflogeion y dyfodol, trwy ddarparu cyfleuster ar neu oddi ar y safle neu wneud cyfraniadau a.106 i ganiatáu darpariaeth neu welliant yn lleol. Ar ben hynny, diogelir mannau agored presennol rhag datblygu, oni bai bod modd bodloni meini prawf penodol.

**6.4.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS10:

- **Dangosydd 46**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad tai nad ydynt yn rhoi sylw i anghenion mannau agored y preswylwyr. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 47**: Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygiad yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 48**: Paratoi CCA yn ymwneud â Mannau Agored a Thir Glas. Cafodd y CCA Mannau Agored a Thir Glas ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. O ganlyniad nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**6.4.3** Yn sgîl arfarnu dangosydd 46 yn 2019 daethpwyd i'r casgliad nad yw PS10 yn cyflawni ei holl amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl. Mae arfarniad dangosydd 47 yn dangos o hyd bod yr agwedd hon ar y polisi yn dal i gyrraedd y targed (gweler isod).

### 6.4.4 Dangosydd 47: Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygiad yn groes i'r fframwaith polisi.

**Tabl 6.4.1 PS10 - Mannau agored, Dangosydd 47**

| **PS10 Dangosydd 47** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygiad yn groes i'r fframwaith polisi | | | |
| **Amcan** | OB 10 | | | |
| **Polisïau allweddol** | PS10 | **Polisïau cysylltiedig** | | PS2, OS2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Sbardun** |
| Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygiad yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais, gan arwain at golli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Yn ystod y cyfnod monitro, ni chymeradwywyd ceisiadau sydd wedi arwain at golli mannau agored lle mae diffyg yn y ddarpariaeth mannau agored o'r categori hwnnw yn y ward. | | | | |

# 7 Hybu Economi Gynaliadwy

**7.0.1** Mae’r Bennod hon yn adrodd ar y polisïau strategol canlynol o dan thema 'Hybu economi gynaliadwy' y CDLl:

- PS11 'Twf cyflogaeth';
- PS12 'Manwerthu'; a
- PS13 'Twristiaeth'

## 7.1 Polisi Strategol 11 Twf Cyflogaeth

**7.1.1** Nod PS11 'Twf cyflogaeth' yw hybu economi gynaliadwy trwy nifer o fesurau, gan gynnwys dyrannu safleoedd ar gyfer datblygiad economaidd, diogelu safleoedd cyflogaeth presennol, a darparu dull mwy hyblyg o ymdrin â datblygiad yn ardaloedd y cymoedd.

**7.1.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS11:

- **Dangosydd 49**: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yn CNPT, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle ar gyfer Cymru a’r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT a lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw’n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 50**: Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o’r holl ddyraniadau cyflogaeth. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ond gan ei fod yn ddangosydd craidd, mae hefyd yn cael ei ddadansoddi ymhellach isod.
- **Dangosydd 51**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw’n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 52**: Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a’r arwynebedd llawr. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw’n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 53:** Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT, cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a’r Deyrnas Unedig.
- **Dangosydd 54**: Cyfradd diweithdra CNPT, cyfradd diweithdra Cymru a’r Deyrnas Unedig
- **Dangosydd 55:** Paratoi CCA yn ymwneud â Fframwaith Datblygu Bae Baglan. Cafodd CCA Fframwaith Datblygu Bae Baglan ei gwblhau a’i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 56**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i’r fframwaith polisi.

**7.1.3** Mae arfarnu’r dangosyddion wedi dod i’r casgliad yn flaenorol nad yw’r polisi strategol yn cyflawni ei amcanion, ac felly bydd y polisi’n cael ei adolygu fel rhan o Adolygiad y CDLl.

**Dangosydd 53: Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT a chyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig.**

**Tabl 7.1.1 PS11 - Twf cyflogaeth, Dangosydd 53**

| PS11 Dangosydd 53 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Dangosydd Lleol: Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT.<br><br>Dangosydd Cyd-destunol: Cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig. | | | |
| **Amcan** | OB2; OB11; OB12 | | | |
| **Polisïau allweddol** | PS2 | **Polisïau cysylltiedig** | | PS11 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Sbardun** |
| Dangosydd Lleol:<br>Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT. | Cyflawni cynnydd yng nghyfradd gweithgarwch economaidd, i 76% erbyn 2026 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae cyfradd gweithgarwch economaidd yn dirywio 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mae'r dangosydd hwn yn adrodd ar y gyfradd gweithgarwch economaidd a gafwyd yn Arolwg Poblogaeth Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Nid yw data'r cyfnod monitro wedi cael ei ddarparu eto. Mae'r tabl a'r graff isod yn adrodd am gyfraddau gweithgarwch economaidd ers dechrau cyfnod y Cynllun. | | | | |

**Tabl 7.1.2 Gweithgarwch Economaidd 2011-2020**

| Blwyddyn yn Diweddu | CNPT | Cymru | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2011 (Dyddiad Sylfaen) | 69.7% | 72.7% | 76% |
| 31 Mawrth 2012 | 67.9% | 73% | 76.2% |
| 31 Mawrth 2013 | 70.4% | 73.9% | 76.8% |
| 31 Mawrth 2014 | 74.3% | 75.3% | 77.1% |
| 31 Mawrth 2015 | 71.1% | 74.4% | 77.3% |
| 31 Mawrth 2016 | 71.8% | 75.3% | 77.7% |
| 31 Mawrth 2017 | 74.9% | 74.8% | 77.8% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2018 | 72.5% | 76.5% | 78.3% |
| 31 Mawrth 2019 | 74.0% | 76.7% | 78.5% |
| 31 Mawrth 2020 | 76.9% | 76.6% | 79.0% |

**Ffigur 7.1 Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd**




**Dangosydd 54: Cyfradd diweithdra CNPT a chyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig.**

**Tabl 7.1.3 PS11 - Twf cyflogaeth, Dangosydd 54**

| **Polisi Strategol PS11 Dangosydd 54** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Dangosydd Lleol: Cyfradd diweithdra CNPT<br><br>Dangosydd Cyd-destunol: Cyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig | | |
| **Amcan** | OB2; OB11; OB12 | | |
| **Polisïau allweddol** | PS11 | **Polisïau cysylltiedig** | PS2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Sbardun** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd Lleol:<br><br>Cyfradd diweithdra CNPT<br><br>Dangosydd Cyd-destunol:<br><br>Cyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae cyfradd diweithdra'n cynyddu 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mewn modd tebyg i Ddangosydd 53 uchod, mae'r dangosydd hwn yn adrodd ar gyfraddau diweithdra gan ddefnyddio data a gafwyd o Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS. Ni ddarparwyd data ar gyfer y cyfnod monitro. Mae'r Tabl isod yn adrodd ar gyfraddau diweithdra ers dechrau cyfnod y Cynllun. | | | | |

**Tabl 7.1.4 Cyfraddau Cymharol Diweithdra fesul Blwyddyn (2012-2020)**

| Blwyddyn yn Diweddu | CNPT | Cymru | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | 10.8% | 8.4% | 8.1% |
| 31 Mawrth 2013 | 7.4% | 8.3% | 7.8% |
| 31 Mawrth 2014 | 9.3% | 7.4% | 7.2% |
| 31 Mawrth 2015 | 5.6% | 6.7% | 5.9% |
| 31 Mawrth 2016 | 6.9% | 5.4% | 5.1% |
| 31 Mawrth 2017 | 5.5% | 4.4% | 4.7% |
| 31 Mawrth 2018 | 6.6% | 4.9% | 4.3% |
| 31 Mawrth 2019 | 3.0% | 4.5% | 4.1% |
| 31 Mawrth 2020 | 4.8% | 3.7% | 3.8% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS

## Dangosydd 56: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.



**Tabl 7.1.5 PS11 - Twf cyflogaeth, Dangosydd 56**

| PS11 Dangosydd 56 | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi. | | |
| **Amcan** | 6,11,12 | | |
| **Polisïau allweddol** | PS2 | **Polisïau cysylltiedig** | EC2, EC3, EC4, EC5 |

| Dangosydd | Targed | Canlyniad | Sbardun |
|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | | |
| **Gweithredu** | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | |
| Mae Polisi EC3 'Defnyddiau Ardaloedd Cyflogaeth' yn cyfyngu ar ddefnyddiau o fewn ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai a ddyrannwyd i Ddosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8, cyfleusterau neu wasanaethau ategol a fyddai'n cefnogi defnyddiau cyflogaeth a gwasanaethau masnachol nad ydynt yn gysylltiedig â Dosbarth B. Byddai angen i wasanaethau masnachol gydweddu â swyddogaeth economaidd ehangach yr ardal gyflogaeth, ac ni ddylent fod yn ddefnyddiau y byddai'n well eu lleoli yng nghanol trefi.<br><br>O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chafwyd ceisiadau o fewn ardal gyflogaeth a ddiogelwyd a allai gael eu hystyried yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |

## 7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu

**7.2.1** Mae PS12 'Manwerthu' yn amlinellu'r strategaeth fanwerthu ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn ystod cyfnod y cynllun. Diben hyn yw cefnogi canolfannau manwerthu presennol y Fwrdeistref Sirol trwy ddiogelu ac annog darpariaeth fanwerthu mewn lleoliadau priodol, ynghyd â chaniatáu defnyddiau cydweddus a fydd yn gwella canolfannau manwerthu, ochr yn ochr â gwrthsefyll cynigion ar gyfer manwerthu y tu allan i'r canol.

**7.2.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS12:

- **Dangosydd 57:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd
- **Dangosydd 58:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu ar raddfa fach

**7.2.3** Mae'r arfaniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS12 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad. Bydd y monitro ar y polisi hwn yn parhau (gweler isod).

**Dangosydd 57: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.**

**Tabl 7.2.1 PS12 - Manwerthu, Dangosydd 57**

| Polisi Strategol SP 12 Dangosydd 57 | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd |

| Amcan | OB13 | | | |
|---|---|---|---|---|
| Polisïau Allweddol | PS12 | Polisïau Cysylltiedig | | PS2; R2; R3 |
| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiadau manwerthu yn groes i'r fframwaith polisi | Mabwysiadu | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer datblygiad manwerthu yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | AMB 2017 | | |
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| | | AMB 2020 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| Dadansoddiad: | | | | |

- Cymeradwywyd dau gais ar gyfer safleoedd manwerthu newydd yn y cyfnod monitro, ac roedd un ohonynt yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.
- Barnwyd bod y ddau gynnig yn dderbyniol ac yn unol â'r fframwaith polisi, ac o ganlyniad nid oedd ceisiadau sbarduno ynghylch y dangosydd hwn.

## Dangosydd 58: Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd.

**Tabl 7.2.2 PS12 - Manwerthu, Dangosydd 58**

| Polisi Strategol SP 12 Dangosydd 58 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd | Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd | | | |
| Amcan | OB13 | | | |
| Polisïau Allweddol | PS12 | Polisïau Cysylltiedig | | PS2; R3 |
| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
| Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | Mabwysiadu | 2016 | Dim cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd am 2 flynedd yn olynol. |
| | | AMB 2017 | | |
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| | | AMB 2020 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| Dadansoddiad | | | | |

- Cymeradwywyd dau gais ar gyfer datblygiadau manwerthu ar raddfa fach [26] yn ystod y cyfnod monitro, yn newidiadau defnydd fel ei gilydd.
- Mae hyn un yn fwy na'r nifer a gymeradwywyd yn y cyfnod blaenorol.

## 7.3 Polisi Strategol 13 Twristiaeth

**7.3.1** Nod PS13 'Twristiaeth' yw annog datblygiad twristiaeth gynaliadwy: annog datblygiadau twristiaeth cynaliadwy, o ansawdd uchel, darparu dull hyblyg o ddatblygu a throsi cyfleusterau twristiaeth; cefnogi cynigion twristiaeth trwy ddyrannu tir ar gyfer datblygu twristiaeth; a gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth, lle bo hynny'n briodol.

**7.3.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS13:

- **Dangosydd 59**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 60**: Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 61**: Datblygu ystod o lwybrau cerdded a beicio gwell. Cwblhawyd y llwybrau cerdded a beicio yng nghyfnod monitro 2017 – nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

**7.3.3** Mae'r arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS13 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad. Bydd y monitro ar y polisi hwn yn parhau (gweler isod).

### Dangosydd 59: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.

**Tabl 7.3.1 PS13 - Twristiaeth, Dangosydd 59**

| Polisi Strategol SP 13 Dangosydd 59 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | OB14 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS13 | **Polisïau Cysylltiedig** | | T01 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim cynigion twristiaeth i gael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer cynigion twristiaeth yn AMB 2017 groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |

26 (y trothwyon yw 100msg o arwynebedd llawr gros yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir a 200msg yn Ardal Strategaeth y Cymoedd)

| |
|---|
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol, monitro i barhau |
| **Dadansoddiad:** |
| • O fewn y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd tri chais cynllunio yn ymwneud â darparu cyfleusterau twristiaeth newydd. Roedd y ceisiadau'n ymwneud â darparu llety gwely a brecwast (P2020/0176); llety gwyliau (P2020/0387); ac adfer gwaith daear er mwyn medru defnyddio'r tir at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys twristiaeth, amaethyddiaeth, cadwraeth natur, hamdden a diwydiannol, ymchwil a datblygu a/neu ddefnydd busnes (P2020/0362).<br>• Roedd yr holl geisiadau'n unol â'r fframwaith polisi, a byddant yn cefnogi'r sector twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. |

## Dangosydd 60: Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.

**Tabl 7.3.2 PS13 - Twristiaeth, Dangosydd 60**

| **Polisi Strategol SP 13 Dangosydd 60** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | | | |
| **Amcan** | OB14 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS13 | **Polisïau Cysylltiedig** | | T02 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | Dim cyfleusterau twristiaeth yn cael eu colli yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais a arweiniodd at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach, Monitro i barhau | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth. | | | | |

# 8 Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

**8.0.1** Mae'r Bennod hon yn adrodd am y polisïau strategol canlynol yn thema 'Gwerthfawrogi ein hamgylchedd' y CDLl:

- PS14 'Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu';
- PS15 'Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth';
- PS16 'Diogelu'r amgylchedd';
- PS17 'Mwynau';
- PS18 'Ynni adnewyddadwy a charbon isel'; a
- PS19 'Rheoli gwastraff'

## 8.1 Polisi Strategol 14 Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu

**8.1.1** Mae gan y Fwrdeistref Sirol amrywiaeth o dirluniau a morluniau trawiadol a chyferbyniol. Mae PS14 yn ceisio sicrhau bod cefn gwlad, tirluniau pwysig ac ardaloedd arfordir sydd heb eu datblygu ar draws yr ardal yn cael eu diogelu rhag datblygu amhriodol ac yn cael eu cadw, ochr yn ochr â chefnogi menter wledig, gan gynnwys twristiaeth a gweithgareddau hamdden.

**8.1.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS14:

- **Dangosydd 62**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu, ardaloedd tirlun arbennig a lletemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 63**: Paratoi CCA yn ymwneud â'r tirlun a'r morlun. Cwblhawyd y CCA Tirlun a Morlun a'i gyhoeddi ym mis Mai 2018. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**8.1.3** Daeth arfarniad dangosydd 62 i'r casgliad yn 2019 nad oedd PS14 yn cyflawni ei amcanion, ac y byddai angen ei adolygu fel rhan o Adolygiad y CDLl.

## 8.2 Polisi Strategol 15 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

**8.2.1** Mae PS15 'Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth' yn ceisio gwarchod, cadw a gwella safleoedd a nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth pwysig yn yr ardal trwy'r broses gynllunio.

**8.2.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS15:

- **Dangosydd 64**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 65:** Paratoi'r CCA yn ymwneud â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Cafodd y CCA bioamrywiaeth a geoamrywiaeth ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Mai 2018. Nid oes angen monitro na gweithredu ymhellach.

**8.2.3** Wrth arfarnu dangosydd 64 daethpwyd i'r casgliad bod PS15 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd angen parhau i fonitro'r polisi.

**Dangosydd 64: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.**

**Tabl 8.2.1 PS15 - Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, Dangosydd 64**

| Polisi Strategol SP 15 Dangosydd 64 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | OB15 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS15 | **Polisïau Cysylltiedig** | | EN6 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Ni chafodd ceisiadau cynllunio eu derbyn na'u cymeradwyo oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd yn genedlaethol nac yn rhyngwladol o fewn y cyfnod monitro. | | | | |

## 8.3 Polisi Strategol 16 Diogelu'r Amgylchedd

**8.3.1** Mae PS16 'Diogelu'r amgylchedd' yn ceisio diogelu ansawdd aer, dŵr a phridd a'r amgylchedd yn gyffredinol, a sicrhau nad yw datblygiadau yn cynyddu nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.

**8.3.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS16:

- **Dangosydd 66**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 67**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith i gyd-fynd â nhw

- **Dangosydd 68**: Paratoi CCA yn ymwneud â llygredd. Cafodd CCA Llygredd ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 69**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd tawel dynodedig.

**8.3.3** Wrth arfarnu'r dangosyddion daethpwyd i'r casgliad bod PS16 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

**Dangosydd 66: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi.**

**Tabl 8.3.1 PS16 - Diogelu'r amgylchedd, Dangosydd 66**

| Polisi Strategol SP 16 Dangosydd 66 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | OB16; OB17 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS16 | **Polisïau Cysylltiedig** | | PS2; EN8 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi. | Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd, ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **:Dadansoddiad:** | | | | |
| • Cymeradwywyd un cais perthnasol yn yr ARhAA yn ystod y cyfnod monitro.<br>• Barnwyd bod y cynnig yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi. | | | | |

**Dangosydd 67: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd â nhw.**

**Tabl 8.3.2 PS16 - Diogelu'r amgylchedd, Dangosydd 67**

| Polisi Strategol SP 16 Dangosydd 67 | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd â nhw. |
| **Amcan** | OB16; OB17 |

| Polisïau Allweddol | PS16 | Polisïau Cysylltiedig | | PS2; EN9 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd â nhw. | Ni ddylai fod achosion o fynd dros y trothwyon ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni ddylai fod achosion o fynd dros y trothwyon ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Cymeradwywyd dau gais mewn ARhAA neu 5 o fewn 500m o ffin ARhAA yn ystod y cyfnod monitro.
- Roedd un o'r ceisiadau hyn ar gyfer datblygiad gweithrediadol perthnasol.
- Ni achoswyd unrhyw sefyllfaoedd o dorri lefelau ansawdd aer yn ystod cyfnod adeiladu'r cynnig hwn.

## Dangosydd 69: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig.

**Tabl 8.3.3 PS16 - Diogelu'r amgylchedd, Dangosydd 67**

| Polisi Strategol SP 16 Dangosydd 69 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | | | |
| **Amcan** | OB2; | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS16; EN10 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Ni chymeradwywyd ceisiadau mewn ardaloedd tawel dynodedig yn ystod y cyfnod monitro.

## 8.4 Polisi Strategol 17 Mwynau

**8.4.1** Mae PS17 'Mwynau' yn ceisio rheoleiddio ecsbloetio adnoddau mwynau er mwyn gwneud cyfraniad cymesur at ddiwallu'r galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am fwynau, ochr yn ochr â sicrhau cydbwysedd derbyniol a chynaliadwy â diogelu'r amgylchedd a chymunedau lleol.

**8.4.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS17:

- **Dangosydd 70**: Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).
- **Dangosydd 71**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau.
- **Dangosydd 72**: Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad oeddent yn cyd-fynd â Pholisi M2
- **Dangosydd 73**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau.

**8.4.3** Wrth arfarnu'r dangosyddion, daethpwyd i'r casgliad bod PS17 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

**Dangosydd 70: Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn yr MTAN.**

**Tabl 8.4.1 PS17 - Mwynau, Dangosydd 70**

| Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 70 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) | | | |
| **Amcan** | OB18 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS17 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) | Mae cronfa dir 10 mlynedd o gerrig mâl i gael ei chadw ar hyd cyfnod y Cynllun. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chedwir cronfa dir 10 mlynedd ar hyd cyfnod y AMB 2017 Cynllun. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |

| |
|---|
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau |
| **Dadansoddiad:** |
| • Cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cwmpas y gronfa dir creigiau mâl yn Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) 2019 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021).<br>• Cyfrifwyd ffigurau'r gronfa dir yn ôl y dull a gyflwynwyd yn MTAN1 (Agregau), a defnyddiwyd cyfartaledd gwerthiant y 3 blynedd diwethaf (h.y. ni chaniatawyd ar gyfer y duedd o ran y galw).<br>• Mae'r adroddiad yn nodi bod gan CNPT ffigur cronfa dir o 47 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 3 blynedd (2017-2019). Bernir bod y ffigur o 43 blynedd a seiliwyd ar gyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd (2010 - 2019) yn fwy darbodus na'r ffigur 3 blynedd.<br>• Mae 2il Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020) yn awr yn mynegi'r gronfa dir yn nhermau'r ffigur cyfrannedd blynyddol a argymhellwyd ar gyfer CNPT, sy'n rhoi cronfa dir o 54 mlynedd.<br>• O ganlyniad, cyflawnwyd gofynion y dangosydd hwn. |

## Dangosydd 71: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau.

**Tabl 8.4.2 PS17 - Mwynau, Dangosydd 71**

| **Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 71** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau. | | | |
| **Amcan** | OB18 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS17 | **Polisïau Cysylltiedig** | | M1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau. | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Caniatawyd cyfanswm o 20 o geisiadau mewn ardaloedd diogelu mwynau (Polisi M1) yn ystod y cyfnod monitro.<br>• Rhoddwyd 10 caniatâd lle barnwyd bod yr effaith ar yr adnodd mwynau yn fach iawn.<br>• Ym mhob achos arall roedd y cynigion ar raddfa ac mewn lleoliad oedd yn golygu na fyddent yn cael effaith sylweddol ar weithio'r mwyn yn y dyfodol.<br>• Barnwyd felly bod yr holl geisiadau a gymeradwywyd yn unol â'r fframwaith polisi, ac nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. | | | | |

## Dangosydd 72: Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi M2.

**Tabl 8.4.3 PS17 - Mwynau, Dangosydd 72**

| Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 72 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi M2. | | | |
| **Amcan** | OB18 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS17 | **Polisïau Cysylltiedig** | | M2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi M2. | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Mae Dangosydd 72 yn ymwneud â Pholisi M2, sy'n cyfeirio at gynigion ar gyfer gweithgareddau arwyneb cysylltiedig ag echdynnu glo.<br>• Ni chaniatawyd ceisiadau perthnasol yn ystod y cyfnod monitro, ac felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. | | | | |

## Dangosydd 73: Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau.

**Tabl 8.4.4 PS17 - Mwynau, Dangosydd 73**

| Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 73 | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau | | |
| **Amcan** | OB18 | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS17 | **Polisïau Cysylltiedig** | M3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau | Ni chaniateir cais yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Mae'r dangosydd yn cyfeirio at nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn parthau clustogi mwynau (Polisi M3) a nodwyd o amgylch safleoedd mwynau arfaethedig a rhai sydd eisoes yn bodoli.
- Caniatawyd un cais o fewn y cyfnod monitro ar gyfer cynnig mewn parth clustogi.
- Bu'r cais yn ystyried y goblygiadau o ran yr adnodd mwynau, ond gan ei fod yn ymwneud ag adfer safle glo brig a Chanolfan Ddosbarthu ar ddiwedd ei oes gwaith, barnwyd bod y cynnig yn cyd-fynd â thelerau'r polisi.

## 8.5 Polisi Strategol 18 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

**8.5.1** Mae PS18 'Ynni adnewyddadwy a charbon isel' yn ceisio sicrhau bod yr ardal yn gwneud cyfraniad cymesur at gynhyrchu ynni adnewyddadwy, ochr yn ochr â chydbwyso effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy ar yr amgylchedd a chymunedau.

**8.5.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS18:

- **Dangosydd 74**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg carbon isel ac ynni adnewyddadwy
- **Dangosydd 75**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd â nhw
- **Dangosydd 76**: Paratoi CCA yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Cafodd y CCA ynni adnewyddadwy a charbon isel ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**8.5.3** Wrth arfarnu dangosydd 74 daethpwyd i'r casgliad nad yw PS18 bellach yn cyflawni ei dargedau, a hefyd ei fod wedi mynd yn ddi-werth yn sgîl polisi cenedlaethol newydd (gweler isod). O ganlyniad, bydd angen adolygu'r polisi fel rhan o broses Adolygu'r CDLl. Bydd y polisi yn parhau i gael ei fonitro.

**Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg carbon isel ac ynni adnewyddadwy.**



**Tabl 8.5.1 PS18 - Ynni adnewyddadwy a charbon isel Dangosydd 74**

| **Polisi Strategol SP 18 Dangosydd 74** |
|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel. | | | |
| **Amcan** | OB 19 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS18; RE1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel. | Cyflawni targedau capasiti AChS TAN 8 ac annog pob math o ddatblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel, lle bo hynny'n briodol. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chofnodir cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Bydd y polisi yn destun proses adolygu | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Cymeradwywyd dau gais yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy/carbon isel, sef fferm solar PV a phaneli PV ar do adeilad oedd eisoes yn bodoli. Cymeradwywyd yr un nifer o geisiadau ag yn 2019 – 2020, felly, oedd yn ostyngiad ers 2018-19. O ganlyniad, mae hyn yn sbardun ar gyfer Dangosydd 74.
- Effeithiwyd hefyd ar Bolisi RE1 gan bolisi cenedlaethol newydd ar ynni adnewyddadwy yn Dyfodol Cymru, sydd hefyd yn nodi'r angen am adolygu'r polisi.
- O ganlyniad, bydd angen i Bolisïau PS18 ac RE1 gael eu hailasesu fel rhan o adolygiad y CDLl

## Dangosydd 75: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd â nhw.

**Tabl 8.5.2 PS18 - Ynni adnewyddadwy a charbon isel, Dangosydd 75**

| **Polisi Strategol SP 18 Dangosydd 75** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy. | | | |
| **Amcan** | OB19 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS18; | **Polisïau Cysylltiedig** | | RE2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy. | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |

| **Gweithredu** | |
|---|---|
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | |
| **Dadansoddiad:** | |
| • Cyrhaeddodd pedwar cynnig y trothwy oedd yn golygu bod angen Asesiad Ynni Adnewyddadwy. Cyflwynwyd yr asesiad a'i gymeradwyo ym mhob achos. | |

## 8.6 Polisi Strategol 19 Rheoli Gwastraff

**8.6.1** Mae Polisi Strategol 19 (PS19) 'Rheoli gwastraff' yn ceisio mabwysiadu dull cynaliadwy o reoli gwastraff a chyfrannu at ddarparu ar gyfer rhwydwaith integredig, digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff.

**8.6.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS19:

- **Dangosydd 77:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw.
- **Dangosydd 78**: Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth.
- **Dangosydd 79**: Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT.

**8.6.3** Daeth arfarniad o'r dangosyddion i'r casgliad bod PS19 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

### Dangosydd 77: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw.

**Tabl 8.6.1 PS19 - Rheoli gwastraff, Dangosydd 77**

| Polisi Strategol SP 19 Dangosydd 77 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw. | | | |
| **Amcan** | OB20 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS19 | **Polisïau Cysylltiedig** | | W3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw. | Dylai pob cynnig datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan delerau Polisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Yn ystod y cyfnod monitro cafwyd 2 gais oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP).<br>• Yn unol â Pholisi W3 cyflyrwyd y ddau gais yma i gynhyrchu SWMP sy'n ymdrin â'r cyfnod adeiladu yn ogystal â meddiant/gweithrediad y safle wedi hynny.<br>• O ganlyniad, mae gofynion y dangosydd hwn wedi cael eu cyflawni. | | | | |

## Dangosydd 78: Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth

**Tabl 8.6.2 PS19 - Rheoli gwastraff, Dangosydd 78**

| Polisi Strategol SP 19 Dangosydd 78 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | | | |
| **Amcan** | OB20 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS19 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff | **Mabwysiadu** | 2016 | Gwrthod un cais ar safle cyflogaeth y barnwyd ei fod yn addas ar gyfer gwastraff |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Ni dderbyniwyd/phenderfynwyd ar unrhyw geisiadau cysylltiedig â gwastraff oedd yn ymwneud â thir cyflogaeth a ddyrannwyd a/neu a ddiogelwyd yn ystod y cyfnod monitro.
- O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

## Dangosydd 79: Swm y tir a’r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT.

**Tabl 8.6.3 PS19 - Rheoli gwastraff, Dangosydd 79**

| Polisi Strategol SP 19 Dangosydd 79 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y tir i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | | | |
| **Amcan** | OB20 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS19 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y tir i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | **Mabwysiadu** | 2016 | Sefydlwyd y pwynt sbarduno ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21 |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | AMB 2019 | | |
| | | AMB 2020 | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn yw capasiti tirlenwi o saith mlynedd o leiaf ar gyfer y rhanbarth.
- Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR) 2020/21 ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru yn dangos bod y capasiti tirlenwi a ragfynegir ar gyfer y rhanbarth yn 6.1 mlynedd ar hyn o bryd. Er bod hyn o dan y pwynt sbarduno, dylid nodi bod y ffigur hwn yn dibynnu ar sawl rhagdybiaeth, gan gynnwys amgylchiadau unigol y cyfleusterau tirlenwi sy'n weithredol ar hyn o bryd, argaeledd posibl cyfleusterau newydd a safleoedd trin, a gostyngiad posibl yn symiau'r gwastraff gweddilliol a gynhyrchir.
- O gymryd i ystyriaeth bod y ffigur lle gwag yn amrywio'n fawr, yn ôl y ffigurau blynyddol a chontractau a chyfleusterau gwastraff unigol, a'i fod yn dal yn uwch na'r trothwy 5 mlynedd fyddai'n golygu bod angen darpariaeth newydd, bernir y dylid cymryd nad yw'r dangosydd hwn wedi cael ei sbarduno yn y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, bydd angen monitro'n fanwl y gostyngiad yn argaeledd lle gwag a'r cynnydd yn swm y gwastraff sy'n cael ei dirlenwi a welwyd yn 2018 a 2019 yn WMPRs ac AMBau y dyfodol.
- O ran cyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau, caiff y tir cyflogaeth a ddefnyddir ei fonitro'n benodol gan Ddangosyddion 50, 51, 52 a 56 yn eu tro. Ar sail canlyniadau'r monitro hyd yma, wedi'i gyfuno â'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau sy'n weithredol ar hyn o bryd, bernir bod digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio â'r deilliannau gwastraff yn CNPT.

# 9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

**9.0.1** Mae'r Bennod hon yn adrodd ar bolisïau strategol canlynol thema 'Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy' y CDLl:

- PS20 'Rhwydwaith trafnidiaeth'

## 9.1 Polisi Strategol 20 Rhwydwaith Trafnidiaeth

**9.1.1** Nod PS20 'Rhwydwaith trafnidiaeth' yw cefnogi a datblygu'r rhwydwaith trafnidiaeth er mwyn hwyluso symudiad pobl a nwyddau yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn y Fwrdeistref Sirol, lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat, a gwella cysylltedd ag ardaloedd cymdogol.

**9.1.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS20:

- Dangosydd 80: Cyflawni 1. Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; 2. Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); 3. Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4); Ffordd yr Harbwr (FfDdY). Er bod cynlluniau 1 a 3 wedi cael eu cyflawni o fewn y terfynau amser a roddwyd, nid yw cynllun 2 wedi cael ei gyflawni erbyn 2017, ac o ganlyniad cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn
- **Dangosydd 81:** Cyflawni'r Hwb Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot. Cwblhawyd yr Hwb Trafnidiaeth Integredig yng nghyfnod monitro 2018, nid oes angen gweithredu na monitro pellach
- **Dangosydd 82:** Cwblhau Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan). Mae prosiect Dyffryn Aman wedi cael ei gwblhau'n rhannol yn unig, ac o ganlyniad cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 83:** Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam. Ni chyflawnwyd y cynllun hwn o fewn y terfyn amser a roddwyd, ac o ganlyniad, cafodd y dangosydd ei sbarduno, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn
- **Dangosydd 84:** Paratoi CCA yn ymwneud â Safonau Parcio. Cafodd y CCA Safonau Parcio ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**9.1.3** Er bod nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan, Ffordd Amazon (Cyfnod 2), Yr Hwb Trafnidiaeth Integredig, Llwybr Cwm Afan a rhan o Lwybr Beicio Dyffryn Aman wedi cael eu cwblhau, daeth arfarniad o'r dangosyddion i'r casgliad yn flaenorol nad yw PS20 yn cyflawni ei amcanion. O ganlyniad, bydd y polisi'n cael ei adolygu fel rhan o Adolygiad y CDLl.

# 10 Parchu Unigrywiaeth

**10.0.1** Mae’r Bennod hon yn adrodd am bolisïau strategol canlynol thema 'Parchu unigrywiaeth' y CDLl:

- PS21 'Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol'; a
- PS22 'Y Gymraeg'

## 10.1 Polisi Strategol 21 Yr Amgylchedd Adeiledig a’r Dreftadaeth Hanesyddol

**10.1.1** Mae amgylchedd adeiledig a threfol CNPT yn amrywiol ac yn unigryw, gyda nodweddion pwysig yn parhau o bob cyfnod, o’r cyfnod cynhanes ymlaen, gan gynnwys bryngaerau a thomenni claddu Oes yr Haearn, seilwaith milwrol Rhufeinig, ac adeiladau a thyddynod eglwysig o’r canol oesoedd. Mae PS21 yn ceisio sicrhau bod datblygiad newydd yn cadw at safon ddylunio uchel, a bod amgylchedd hanesyddol pwysig yr ardal yn cael ei gadw a’i wella lle bynnag y bo modd.

**10.1.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS21:

- **Dangosydd 85**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.
- **Dangosydd 86**: Paratoi CCA yn ymwneud â’r Amgylchedd Hanesyddol. Cafodd CCA yr Amgylchedd Hanesyddol ei gwblhau a’i gyhoeddi ym mis Ebrill 2019. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 87**: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth ac ar safleoedd eraill a ddynodwyd.

**10.1.3** Wrth arfarnu’r dangosyddion, daethpwyd i’r casgliad bod PS21 yn cael ei weithredu’n unol â’r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi yn parhau i gael ei fonitro.

**Dangosydd 85: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.**

**Tabl 10.1.1 PS21 - Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol, Dangosydd 85**

| Polisi Strategol SP 21 Dangosydd 85 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion sydd â phwyslgrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | | | |
| **Amcan** | OB23; OB24 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS21 | **Polisïau Cysylltiedig** | | BE2; BE3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion sydd â | Ni chaniateir ceisiadau sy’n groes i’r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Un cais datblygu yn groes i’r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| phwyslgrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Yn ystod y cyfnod monitro cymeradwywyd pum cais oedd yn ymwneud ag Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol (BLI) neu'n effeithio arnynt, yr oedd Polisi BE2 yn berthnasol iddynt.
- Roedd pedwar ar gyfer newid defnydd neu drosi, gan gadw'r adeilad, tra bod un yn ymwneud ag adeilad festri yn ymyl capel a ddynodwyd fel Adeilad â Phwysigrwydd Lleol (BLI).
- Ym mhob achos, barnwyd bod y cynigion yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi.

## Dangosydd 87: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth ac ar safleoedd eraill a ddynodwyd.

**Tabl 10.1.2 PS21 - Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol, Dangosydd 87**

| **Polisi Strategol SP 21 Dangosydd 87** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill. | | | |
| **Amcan** | OB23; OB24 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS21 | **Polisïau Cysylltiedig** | | BE1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill. | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais datblygu yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Cymeradwywyd tri chynnig perthnasol mewn Ardaloedd Cadwraeth yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt yng nghanol tref Castell-nedd, a phob un yn geisiadau newid defnydd (un gydag addasiadau).
- Barnwyd bod pob un o'r cynigion yn briodol o ran cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, a'u bod yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi.

## 10.2 Polisi Strategol 22 Yr Iaith Gymraeg

**10.2.1** Nod PS22 ' Y Gymraeg' yw diogelu integriti'r Gymraeg yn yr ardaloedd a nodwyd yn y polisi fel ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg (Dyffryn Aman; Cwm Tawe; Pontardawe; a chymuned y Creunant yng Nghwm Dulais).

**10.2.2** Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS22:

- **Dangosydd 88**: Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd â Chynllun Gweithredu Iaith i gyd-fynd â nhw
- **Dangosydd 89**: Paratoi CCA yn ymwneud â datblygiad a'r Gymraeg. Cafodd CCA datblygiad a'r Gymraeg ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**10.2.3** Mae arfarniad Dangosydd 88 wedi dod i'r casgliad bod PS22 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler iod). Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

**Dangosydd 88: Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd â Chynllun Gweithredu Iaith i gyd-fynd â nhw.**

**Tabl 10.2.1 PS22 - Y Gymraeg, Dangosydd 88**

| Polisi Strategol SP 22 Dangosydd 88 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | | | |
| **Amcan** | OB6; OB25 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | PS22 | **Polisïau Cysylltiedig** | | WL1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| | | **AMB 2020** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau. | | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Ni chafwyd ceisiadau Preswyl, Manwerthu, Masnachol na Diwydiannol yn ystod y cyfnod monitro yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif oedd yn cyrraedd y trothwyon maint i orfod darparu Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Iaith Gymraeg. | | | | |

# RHAN 3 – Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

# 11 Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11.0.1** Bu’r CDLl yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus ar hyd cyfnod paratoi’r cynllun. Roedd yr AC yn ymgorffori gofynion yr AAS, a dylid cymryd bod pob cyfeiriad at yr AC yn y ddogfen hon yn cynnwys AAS. Bu’r AC yn arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y cynllun a’i effeithiau tebygol o ran datblygu cynaliadwy.

**11.0.2** Strwythurwyd yr AC o amgylch 8 pwnc, a nodwyd cyfanswm o 22 amcan o fewn y pynciau hyn. Drafftiwyd, datblygwyd a mireiniwyd esblygiad y CDLl a’r AC, ac mae’r Fframwaith Monitro a gyhoeddwyd ar gyfer y CDLl[27] yn ymgorffori dangosyddion monitro sy’n ymwneud ag amcanion dogfennau’r CDLl a’r AC, gan gynnwys nifer sy’n deillio o’r dangosyddion drafft a gyflwynwyd yn nogfennau’r AC.

**11.0.3** Ar gyfer monitro’r AC, gwnaed rhai newidiadau i’r dangosyddion i sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am amcanion yr AC. Mewn rhai achosion, mae dangosyddion ychwanegol wedi cael eu hymgorffori’n benodol i roi sylw i rai o amcanion yr AC.

**11.0.4** Caiff pob un o amcanion yr AC ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, a chyflwynir y canfyddiadau yn yr adrannau isod. Defnyddiwyd y côd lliwiau canlynol i roi crynodeb cyffredinol o’r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd. Lle cafodd mynegeion eu hasesu yn gynharach yn yr adroddiad, caiff y rhain eu croesgyfeirio’n unig.

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | Effeithiau Cyffredinol Gadarnhaol |
| (oren) | Effeithiau Cymysg |
| (coch) | Effeithiau Cyffredinol Negyddo |
| **0** | Effaith Niwtral |

## 11.1 Pwnc 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd

**Amcan 1A yr AC: Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn cymryd i ystyriaeth newidiadau tebygol yn y dyfodol sy’n deillio o newid yn yr hinsawdd (Addasiad)**

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar ardaloedd gorlifdir C1 | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygu hynod fregus mewn ardaloedd gorlifdir C1 os na fodlonir holl brofion TAN 15 | Ni chaniatawyd ceisiadau ar gyfer datblygiadau bregus iawn yn ardaloedd gorlifdir C1 nad oeddent yn bodloni holl ofynion TAN15. | (gwyrdd) |

27 Tabl 6.2 CDLl CNPT

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |
| 6 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C2 | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygu hynod fregus mewn ardaloedd gorlifdir C2 | Cymeradwywyd tri chynnig ar gyfer datblygiadau bregus iawn o fewn neu’n rhannol o fewn ardal gorlifdir C2. Fodd bynnag, barnwyd bod pob un ohonynt yn unol â gofynion TAN15.<br><br>Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar hyd yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS14 am ragor o fanylion. | |

**Dadansoddiad:**

- Er mwyn sicrhau bod pob datblygiad yn cymryd i ystyriaeth newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl y newid yn yr hinsawdd, mae PS1 a PS14 CDLl CNPT yn amlinellu nifer o ofynion ar gyfer datblygiadau newydd.
- Mae PS1 CDLl CNPT yn ceisio atal cyflwyno datblygiad newydd neu ddefnyddiau bregus pellach mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd oni bai bod modd cyfiawnhau hynny’n llawn, yn unol â’r polisi cenedlaethol, gan fod risg gynyddol o dywydd mwy eithafol a digwyddiadau llifogydd mwy o faint a mwy difrifol yn ganlyniadau tebygol a ragwelir i’r newid yn yr hinsawdd. O ran yr amcan hwn yn yr AC, o fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd datblygiadau bregus iawn mewn ardal gorlifdir C1 nad oeddent yn bodloni holl ofynion TAN15. Caniatawyd nifer o geisiadau am ddatblygiadau bregus iawn mewn ardaloedd gorlifdir C2, ond barnwyd bod y rhain yn unol â gofynion TAN15. Fodd bynnag, o ran amcan 1A yr AC bernir bod hon yn effaith gymysg.
- Mae PS14 CDLl CNPT yn ceisio rheoli datblygiad ar hyd yr arfordir sydd heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas am resymau tirlun a chynaliadwyedd, gan gynnwys yr angen am sicrhau gwydnwch yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae’r dangosydd hwn wedi methu a chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg yng nghyswllt yr amcan AC hwn.
- Mae’r dadansoddiad yn awgrymu bod y CDLl, at ei gilydd, yn cyfrannu’n rhannol yn unig at yr amcan AC hwn

## Amcan 1B yr AC: Cyflawni targedau'r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (Lliniaru)

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan hwn yn yr AC.<br><br>Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |
| 2 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd yn ASC | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan hwn yn yr AC.<br><br>Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |
| 3 | Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl | Ni chollir tir glas yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau ar safleoedd a ddiogelwyd ar gyfer cludo nwyddau o fewn y cyfnod monitro hwn.<br><br>Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |
| 4 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd | Ni chaniateir ceisiadau ar safleoedd a ddiogelwyd ar gyfer cludo nwyddau yn groes i'r fframwaith polisi | No applications have been permitted on sites safeguarded for the transportation of freight within this monitoring period.<br><br>See SP1 for further detail. | |
| 75 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn cyrhaeddodd pedwar cais y trothwy oedd yn golygu bod angen Asesiad Ynni Adnewyddadwy, a chafodd y rhain eu cyflwyno a'u cymeradwyo ym mhob achos. O ganlyniad, ni chaniatawyd ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS18 am ragor o fanylion. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| SA1 | Ôl troed Carbon CNPT ($tCO_2$ per capita) | Gostyngiad blynyddol | 50.0 $tCO_2$ y pen (2019)[28] | |
| SA2 | Defnydd o Nwy yn CNPT | Gostyngiad blynyddol | 146.0 $ktCO_2$ (Domestig 2019) [29] | |
| SA3 | Defnydd o Drydan yn CNPT | Gostyngiad blynyddol | 43.0 $ktCO_2$ (Domestig 2019)[30] | |

**Dadansoddiad:**

- Mae CDLl CNPT yn ceisio cyflawni dwysedd cymharol uchel ar ddatblygiadau newydd; crynhoi datblygiadau newydd o fewn yr ardal drefol bresennol/ar safleoedd tir glas a ddyrannwyd lle mae mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau er mwyn lleihau dibyniaeth trigolion yn y dyfodol ar gerbydau modur; diogelu cyfleusterau nwyddau ar gyfer symud nwyddau yn y dyfodol; a gofyn bod datblygiadau uwchben trothwy penodol yn cyflwyno Asesiadau Ynni Adnewyddadwy er mwyn cyflawni targedau’r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae’r dadansoddiad isod yn awgrymu bod yr amcan AC hwn yn cael ei gyflawni i ryw raddau.
- Mae dangosyddion 1 a 2 wedi methu â chyrraedd eu targedau mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.
- Mae’r dadansoddiad o ddangosyddion 3 a 4 yn awgrymu bod PS1 yn gweithio’n effeithiol i atal colli tir glas sydd heb ei ddyrannu, ac i atal datblygiadau o fewn cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.
- Mae’r dadansoddiad o ddangosydd 75 yn awgrymu bod PS18 yn gweithio’n effeithiol er mwyn mynnu bod Asesiad Ynni Adnewyddadwy’n cyd-fynd â chynigion perthnasol.
- Mae dadansoddiad o ddangosyddion SA1 ac SA2 yn dangos bod yr ôl troed carbon blynyddol a’r defnydd o nwy domestig (45.5 i 50.0 $tCO_2$ y pen a 144.1 i 146.0 $ktCO_2$ yn eu tro) wedi cynyddu. Ond mae dadansoddiad o ddangosydd SA3 yn dangos bod defnydd domestig blynyddol o drydan wedi gostwng rhwng 2018 a 2019 (48.3 o 43.0 $ktCO_2$). Mae hyn yn parhau â’r gostyngiad cyson a welwyd ers dechrau monitro’r Cynllun (77.0 i 43.0$ktCO_2$ 2015-2019).

## Amcan 1C yr AC: Gwneud cyfraniad priodol yr ardal i gynhyrchu ynni’n genedlaethol (Lliniaru)

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 74 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon ise | Cyflawni targedau capasiti TAN 8 yr AAS a, lle bo hynny’n briodol, annog datblygu pob math o dechnoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel | Cymeradwywyd dau gais yn y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy / carbon isel, yr un nifer ag yng nghyfnod monitro 2019/20<br><br>Gweler PS18 am ragor o fanylion. | |



28 www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2019
29 www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2019
30 www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2019

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 75 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Roedd pedwar cais yn bodloni'r gofynion ar gyfer cyflwyno Asesiad Ynni Adnewyddadwy. Cafodd y rhain eu cyflwyno a'u cymeradwyo ym mhob achos. Gweler PS18 am ragor o wybodaeth | |

**Dadansoddiad:**

- Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn gwneud cyfraniad priodol yr ardal i gynhyrchu ynni'n genedlaethol, mae PS18 CDLl CNPT yn ceisio cyflawni targedau ynni adnewyddadwy a thargedau effeithlonrwydd ynni, ochr yn ochr â chydbwyso effaith datblygiad ar yr amgylchedd a chymunedau.
- O ran yr amcan AC hwn, bernir bod gan y ddau ddangosydd effeithiau cyffredinol gadarnhaol. Er na fu cynnydd yn nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg adnewyddadwy/carbon isel yn ystod y cyfnod monitro hwn, bydd y ceisiadau a gymeradwywyd yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy/ carbon isel yn y Fwrdeistref Sirol. Cyflwynodd pob cais oedd yn gorfod cyflwyno Asesiad Ynni Adnewyddadwy addas a gafodd ei gymeradwyo.

## 11.2 Pwnc 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff

**Amcan 2A yr AC: Lleiafu colli neu ddiraddio adnoddau naturiol ochr yn ochr â sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy yn unig**

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan hwn yn yr AC.<br><br>Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |
| 2 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd yn ASC | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan hwn yn yr AC.<br><br>Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |

# 11 . Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Swm y tir glas a gollwyd nad oedd wedi’i ddyrannu yn y CDLl. | Dim tir glas wedi’i golli yn groes i’r fframwaith polisi. | O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd datblygiadau ar safleoedd tir glas oedd heb eu dyrannu, yn groes i’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS1 am ragor o fanylion. | |
| 11 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i’r fframwaith polisi | Cymeradwywyd 20 cais am ddatblygiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn y cyfnod monitro hwn. Barnwyd bod pob un ohonynt yn unol â’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS3 am ragor o fanylion. | |
| 12 | Nifer y ceisiadau newydd a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Bydd datblygiadau newydd yn rhoi sylw i’r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny’n briodol | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan hwn yn yr AC.<br><br>Gweler PS4 am ragor o fanylion. | |
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar hyd yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan ddangos effeithiau cyffredinol gymys o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS4 am ragor o fanylion. | |
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy’n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i’r fframwaith | Dim ceisiadau wedi’u caniatáu yn groes i’r fframwaith polisi | Ni dderbyniwyd / chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol na rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS15 am ragor o fanylion. | |
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i’r fframwaith polisi. | Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd, ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy’n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd. | O fewn y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd 1 cais ar gyfer datblygu o fewn yr ARhAA. Barnwyd bod y cynnig yn unol â’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS16 am ragor o fanylion | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 70 | *Dangosydd Craidd:* Swm yr agregau sylfaenol a enillwyd o'r tir a<br><br>ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer<br><br>Agregau, wedi'i fynegi ar ffurf canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol fel y nodwyd yn MTAN<br><br>*Dangosydd Lleol:* Cyflenwad tir ar gyfer agregau | Cronfa dir 10 mlynedd o gerrig mâl i gael ei chadw ar hyd cyfnod y cynllun | Mae gan Gastell-nedd Port Talbot fanc tir o 47 blynedd ar sail cyfartaledd gwerthiant 3-blwyddyn (2017-2019) a banc tir o 43 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 10-blwyddyn (2010-2019).<br><br>Gweler PS17 am ragor o wybodaeth. | |
| 71 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi o fewn y cyfnod monitro hwn. Caniatawyd 20 cais ar gyfer datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau. Barnwyd bod yr holl geisiadau'n unol â'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS17 am ragor o wybodaeth. | |
| 72 | Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau agregau nad oeddent yn unol â Pholisi M2 | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chyflwynwyd ceisiadau am echdynnu agregau mwynau yn ystod y cyfnod monitro hwn. O ganlyniad, ni chaniatawyd ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS17 am ragor o fanylion. | |
| 73 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn caniatawyd un cais ar gyfer cynnig mewn parth clustogi. Bu'r cais hwn yn ystyried y goblygiadau o ran yr adnodd mwynau, ond gan ei fod yn ymwneud ag adfer safle glo brig a chanolfan ddosbarthu ar ddiwedd ei hoes waith, barnwyd bod y cynnig yn unol â thelerau'r polisi.<br><br>Gweler PS17. | |
| SA4 | Swm y datblygu ar dir amaethyddol o safon uchel | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau datblygu ar dir amaethyddol o ansawdd uchel yn groes i'r fframwaith polisi yn ystod y cyfnod monitro hwn. | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|

- Mae amcan cynaliadwyedd 2A yn ceisio lleiafu colli neu ddiraddio adnoddau naturiol, ochr yn ochr â sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy yn unig.
- Mae'r dadansoddiad o'r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y CDLl yn cyflawni'r amcan AC hwn i ryw raddau. Mae pedwar o'r dangosyddion (1, 2, 12 a 62) wedi methu â chyrraedd eu targedau mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg yng nghyswllt yr amcan AC hwn. Mae'r dangosyddion sy'n weddill yn awgrymu effeithiau cyffredinol gadarnhaol o ran yr amcan AC hwn.

## Amcan 2B yr AC: Cynnal a gwella ansawdd cemegol a biolegol / ecolegol adnoddau naturiol

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 11 | The number of applications permitted outside settlement limits | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | O fewn y cyfnod monitro hwn, caniatawyd 20 o geisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau. Barnwyd bod pob un ohonynt yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS3 am ragor o wybodaeth. | |
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Ni dderbyniwyd / chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol na rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS15 am ragor o fanylion. | |
| SA5 | % y cyrff dŵr sy'n cael dosbarthiad statws 'da' neu uwch gan CNC | Gwelliant blynyddol i'r statws dosbarthiad | Oddi mewn i Ddalgylch Rheoli Tawe i Langatwg, mae statws dosbarthiad cyffredinol dda gan 43% o'r cyrff dŵr arwyneb, mae 52% yn gymedrol, ac mae statws 5% yn gyffredinol wael. Nid oes cyrff dŵr sydd â statws cyffredinol uchel neu wael (Dosbarthiad 2015)[31] | 0 |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

- Mae dadansoddiad o'r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y polisïau'n gweithio'n effeithiol er mwyn cynnal a gwella ansawdd cemegol a biolegol/ecolegol adnoddau naturiol yn y Fwrdeistref Sirol.



31 Tawe to Cadoxton Management Catchment Summary (NRW 2015).

## Amcan 2C yr AC: Lleiafu gwastraff a lleihau symiau'r gwastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 77 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Safle | Dylai'r holl gynigion datblygu sy'n cael eu cwmpasu gan Bolisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle (SWMP) | Roedd dau gais yn cyrraedd y trothwy oedd yn golygu bod SWMP yn ofynnol yn y cyfnod monitro hwn. Cyflyrwyd y ddau i gynhyrchu SWMP sy'n ymdrin â'r cyfnod adeiladu a meddiant/gweithrediad dilynol y safle.<br><br>Gweler PS19 am ragor o fanylion. | |
| 78 | Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff | Ni ddaeth ceisiadau i law yn ystod y cyfnod monitro, felly cynhaliwyd y fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS19 am ragor o wybodaeth. | |
| 79 | Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21) | Mae 11.2 blynedd o le gwag ar gyfer tirlenwi ar gael, felly mae digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio â deilliannau gwastraff. (Adroddiad Monitro 2019) Gweler PS19 am ragor o wybodaeth (i'w lunio'n derfynol). | |
| SA6 | % yr LACW [32] a ailddefnyddiwyd / ailgylchwyd / gompostiwyd | Cynnydd blynyddol | Cafodd 61.7% o LACW CNPT ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod 2019/20.[33] | |

**Dadansoddiad:**

- Mewn perthynas ag amcan 2C yr AC, er nad yw'r CDLl yn cael effaith sylfaenol ar faterion gwastraff, ma'r dangosyddion uchod yn awgrymu'n gyffredinol bod polisïau perthnasol y cynllun yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol.
- Mae'r ffigurau LACW sydd ar gael yn dangos cynnydd cyson yn y ganran sy'n cael ei hailddefnyddio / hailgylchu / chompostio (adroddwyd 60.5% yn AMB 2020 ar gyfer 2018/19, sydd wedi codi i 61.7% yn yr AMB hwn ar gyfer 2019/20).



33 Stats Wales: Rheolaeth flynyddol ar wastraff yn ôl y dull rheoli (tunelli)
32 Gwastraff a Gasglwyd gan yr Awdurdod Lleol

## 11.3 Pwnc 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

### Amcan 3A yr AC: Atal unrhyw golledion net pellach o ran bioamrywiaeth

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy’n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i’r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau’n cael eu caniatáu yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol na rhyngwladol yn groes i’r fframwaith polisi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Gweler PS 15 am ragor o wybodaeth. | |
| SA7 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar SINCs a nodwyd, yn groes i’r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau’n cael eu caniatáu yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi yn ystod y cyfnod monitro hwn. | |
| SA8 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai’n arwain at golled weddilliol (1) o ran cynefin pwysig neu effaith weddilliol ar rywogaethau pwysig(2) | Dim colledion gweddilliol o ran cynefinoedd na rhywogaethau pwysig | O fewn y cyfnod monitro hwn ni chafwyd colledion gweddilliol o ran cynefinoedd na rhywogaethau pwysig. | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Dadansoddiad o'r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y CDLl yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan o ran yr amcan AC hwn. | | | | |

1. Gan gymryd mesurau lliniaru/gwneud iawn i ystyriaeth.
2. Cynefinoedd a rhywogaethau A7, cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) a nodweddion naturiol pwysig, fel y nodwyd ym Mholisi EN7.

### Amcan 3B yr AC: Ecsbloetio pob cyfle rhesymol i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Nifer y ceisiadau newydd a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Bydd datblygiadau newydd yn rhoi sylw i’r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny’n briodol | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan hwn yn yr AC. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler PS4 am ragor o fanylion. | |
| SA9 | Ardal o gynefin A7/SINC a grewyd ac a ddiogelwyd trwy benderfyniadau cynllunio | Cynnydd blynyddol | O fewn y cyfnod monitro hwn ni chafwyd ceisiadau a arweiniodd at greu cynefin S7/SINC ychwanegol | 0 |

**Dadansoddiad:**

- Mae'r dadansoddiad o'r dangosyddion hyn yn awgrymu effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.
- O ran dangosydd SA9, o fewn y cyfnod monitro hwn ni chaniatawyd ceisiadau oedd yn galw am greu cynefin SINC ychwanegol. Gan mai'r unig gais a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro blaenorol oedd ar gyfer creu cynefin SINC amnewid, ni fu cynnydd na gostyngiad blynyddol yn yr ardal cynefin SINC a grewyd ac a ddiogelwyd trwy benderfyniadau cynllunio.

## Amcan 3C yr AC: Lleiafu effeithiau niweidiol ar safleoedd geoamrywiaeth dynodedig

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau oddi mewn i unrhyw safleoedd bioamrywiaeth na geoamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel genedlaethol na rhyngwladol yn groes i'r fframwaith polisi yn ystod y cyfnod monitro hwn.<br><br>Gweler PS 15 am ragor o wybodaeth. | |

**Dadansoddiad:**

- Mae'r dadansoddiad o ddangosydd 64 yn awgrymu bod y CDLl yn gweithio'n effeithiol i leiafu effeithiau niweidiol ar safleoedd geoamrywiaeth dynodedig.

## 11.4 Pwnc 4 yr AC: Y Tirlun, y Treflun a’r Cymeriad Hanesyddol

### Amcan 4A yr AC: Amddiffyn a/neu wella tirlun a threflun yr ardal

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Outcome |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS2 am ragor o wybodaeth. | |
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar hyd yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan ddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS14 am ragor o fanylion | |
| 85 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar adeiladau a nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Caniatawyd pum cais o fewn y cyfnod monitro hwn, yn ymwneud ag Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol neu’n effeithio arnyn nhw. Barnwyd bod yr holl gynigion yn unol â’r fframwaith polisi.<br>Gweler PS21 am ragor o wybodaeth. | |
| 87 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Cymeradwywyd tri chais o fewn y cyfnod monitro hwn, a barnwyd bod pob un ohonynt yn unol â’r fframwaith polisi.<br>Gweler PS21 am ragor o wybodaeth. | |

**Dadansoddiad:**

- Mae dadansoddiad o’r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y CDLl yn cael effaith gymysg o ran yr amcan AC hwn. Mae dangosydd 62 wedi methu â chyrraedd ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Mae dangosyddion 8, 85 ac 87 yn dangos effeithiau cyffredinol gadarnhaol.

## Amcan 4B yr AC: Diogelu a/neu wella amgylchedd hanesyddol yr ardal, gan gynnwys adnoddau pensaernïol ac archaeolegol

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Outcome |
|---|---|---|---|---|
| 85 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar adeiladau a nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Caniatawyd pum cais yn ystod y cyfnod monitro hwn, yn ymwneud ag Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol (BLIs). Barnwyd bod yr holl gynigion yn cyd-fynd â’r fframwaith polisi. Gweler PS21 am ragor o wybodaeth. | |
| 87 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Cymeradwywyd tri chais yn ystod y cyfnod monitro hwn, a barnwyd bod pob un ohonynt yn cyd-fynd â’r fframwaith polisi. Gweler PS21 am ragor o wybodaeth. | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Mae dadansoddiad o’r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y CDLl yn cyflawni effeithiau cyffredinol gadarnhaol o ran yr amcan AC hwn. | | | | |

### 11.5 Pwnc 5 yr AC: Llygredd

## Amcan 5A yr AC: Cyflawni lefelau derbyniol (bodloni safonau cenedlaethol / Ewropeaidd) o ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i’r fframwaith polisi. | Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd, ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy’n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd | O fewn y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd 1 cais ar gyfer datblygu o fewn yr ARhAA. Barnwyd bod y cynnig yn unol â’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS16 am ragor o fanylion | |
| 67 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu (CMP) | Ni ddylai achosion o dorri’r amodau ansawdd aer ddigwydd yn ystod y cyfnod | Caniatawyd 1 cais ar gyfer datblygiad gweithrediadol o fewn yr ARhAA / o fewn 500m i ffin yr ARhAA. Ni chafwyd achosion o fethu â chydymffurfio â’r safonau ansawdd aer yn ystod y | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | adeiladu, yn groes i'r CMP a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | cyfnod adeiladu oedd yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno.<br><br>Gweler PS16 am ragor o wybodaeth. | |
| 81 | Cyflwyno'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot | Cyflawni'r prosiect erbyn 2018 | Cyflawnwyd yr Hwb Trafnidiaeth Integredig yn unol â'r amserlen (Mawrth 2018).<br><br>Gweler PS20 am ragor o wybodaeth | |
| 83 | Cyflwyno cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam | Cyflawni'r prosiect erbyn 2020 | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS21 am ragor o fanylion. | |
| SA10 | Torri amcanion ansawdd aer | Dim achosion o dorri'r amcanion ansawdd aer | Mae Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2020[34] yn nodi dau achos o fethu â bodloni'r safonau ansawdd aer::<br>• Aeth crynodiad yr hydrocarbonau polyaromatig ym Mhort Talbot dros drothwy'r Amcan Ansawdd Aer, sef 0.25ng/m3, ond mae hynny'n is na tharged yr UE, sef 1ng/m3.<br>• Aeth y crynodiadau nicel dros darged yr UE, sef 20ng/m3, yn Nheras Tawe. Fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad blynyddol sylweddol o gymharu â'r cyfnod monitro blaenorol. | |
| SA11 | Nifer a chwmpas yr ARhAAoedd yn CNPT | Dim cynnydd yn nifer na chwmpas yr ARhAAoedd | Mae 1 ARhAA yn CNPT, yn Nhaibach/Margam, ac ni welwyd cynnydd ers mabwysiadu'r CDLl. | |

**Dadansoddiad:**

- Er mwyn cyflawni lefelau derbyniol (bodloni safonau cenedlaethol / Ewropeaidd) o ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol mae PS16 a PS20 CDLl CNPT yn ceisio diogelu a gwella'r amgylchedd gymaint â phosibl; sicrhau nad yw datblygiadau'n cynyddu nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd; a chefnogi a datblygu'r rhwydwaith trafnidiaeth er mwyn hwyluso symudiad pobl a nwyddau yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn y Fwrdeistref Sirol, lleihau dibyniaeth ar y car preifat a gwella cysylltedd ag ardaloedd cymdogol.
- Mae dadansoddiad o'r dangosyddion yn awgrymu bod y CDLl i ryw raddau yn gweithio'n effeithiol i gyflawni'r amcan AC hwn. Mae dangosyddion 66, 67, 81 ac SA11 yn adrodd am effeithiau cyffredinol gadarnhaol ac mae dangosyddion 83 ac SA10 yn adrodd am effeithiau cymysg.

34 https://www.npt.gov.uk/media/15338/npt-aq-progress-report-2020.pdf?v=20210309102532

## Amcan 5B yr AC: Cyflawni lefelau sŵn derbyniol a diogelu ardaloedd tawel ar draws y Fwrdeistref Sirol

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 69 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau mewn ardaloedd tawel dynodedig yn ystod y cyfnod monitro hwn.<br><br>Gweler PS16 am ragor o wybodaeth. | |
| SA12 | Nifer a chwmpas y dynodiadau Ardal Flaenoriaeth Cynllunio Gweithredu ynghylch Sŵn yn CNPT | Dim cynnydd yn nifer na chwmpas y NAPPAs | Mae 11 Ardal Blaenoriaeth ar gyfer ffyrdd a 3 ar gyfer rheilffyrdd yn CNPT | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| • Mae dadansoddiad o’r dangosyddion hyn yn awgrymu bod CDLl CNPT yn gweithio’n effeithiol o ran yr amcan AC hwn. | | | | |

### 11.6 Pwnc 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol

## Amcan 6A yr AC: Gwella cydlyniant cymdeithasol a lleihau'r achosion o eithrio cymdeithasol drwy ymdrin ag achosion eithrio cymdeithasol

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i’r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw geisiadau a fyddai’n arwain at golli mannau agored a/neu gyfleusterau cymunedol yn groes i’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS2 am ragor o wybodaeth. | |
| 10 | Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi. | O fewn y cyfnod monitro hwn, caniatawyd dau gais ar gyfer datblygiadau manwerthu/hamdden sylweddol. Barnwyd bod y ddau gynnig yn cyd-fynd â’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS3 am ragor o wybodaeth. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd 20 cais datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Barnwyd bod yr holl geisiadau'n unol â'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS3 am ragor o wybodaeth. | |
| 14 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 5,690 o unedau<br><br>tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir yn ystod cyfnod y<br><br>Cynllun | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS5 am ragor o fanylion. | |
| 29 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan | Cyflwyno datblygiad twristiaeth/ hamdden yn Lido Afan erbyn 2020 | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS5 am ragor o fanylion. | |
| 31 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 1,435 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod y Cynllun | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS6 am ragor o fanylion. | |
| 32 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 664 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod y Cynllun | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS6 am ragor o fanylion. | |
| 33 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf | Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 er mwyn darparu 264 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged yn AMB eleni, sy'n awgrymu effeithiau cymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS6 am ragor o wybodaeth. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 34 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa’r Parc, Glyn-nedd | Darparu 150 o unedau tai newydd, gyda disgwyl i hynny gychwyn o 2020/21 | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged yn AMB eleni, sy’n awgrymu effeithiau cymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS6 am ragor o wybodaeth. | |
| 37 | Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd a gwaith a ganiatawyd | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS6 am ragor o fanylion. | |
| 38 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflwyno erbyn 2021 | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged yn AMB eleni, sy’n awgrymu effeithiau cymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS6 am ragor o wybodaeth. | |
| 39 | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI | Bydd cyfanswm darpariaeth o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026. | Roedd y tai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro yn sylweddol is na'r targed blynyddol yn CDLl CNPT a’r AAR, y bumed flwyddyn pryd y bu diffyg.<br><br>Bydd y lefel hon o ddarparu tai newydd yn dal i gael effeithiau cadarnhaol ar yr economi leol, ac o ganlyniad ar gynhwysiant cymdeithasol yn gyffredinol, ond mae'n methu â chyrraedd y targedau a'r effeithiau a ragwelwyd.<br><br>Gweler PS7 am ragor o wybodaeth. | |
| 41 | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI | Cyflwyno 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026 | Mae darparu Tai Fforddiadwy wedi bod o dan y targed ers pum mlynedd, gyda 4 uned fforddiadwy yn cael eu cyflawni trwy’r system gynllunio (trwy rwymedigaethau a.106) yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf. Mae hyn yn sylweddol is na’r lefel a ragwelwyd.<br><br>Fodd bynnag, mae tua thraean o’r unedau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod monitro hwn wedi cael eu darparu wrth i LCCiaid ddefnyddio Grant Tai Cymdeithasol. Er na ellir rhoi cyfrif am yr unedau hyn yn y tai | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | | fforddiadwy yr adroddir bod y Cyngor wedi’u cyflawni, byddant o gymorth gyda chynhwysiant cymdeithasol.<br><br>Gweler PS8 am ragor o fanylion. | |
| 46 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu tai heb roi sylw i anghenion y preswylwyr am fannau agored. | Dylai pob datblygiad tai newydd o 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle mae diffyg meintiol yn y ddarpariaeth mannau agored | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged yn AMB 2019, sy’n awgrymu effeithiau cymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS10 am ragor o wybodaeth. | |
| 47 | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygu yn groes i’r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i’r fframwaith polisi. | Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chymeradwywyd ceisiadau a fyddai wedi arwain at golli mannau agored lle mae diffyg yn narpariaeth y categori hwnnw yn y ward.<br><br>Gweler PS10 am ragor o fanylion. | |
| 52 | Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a’r tir cyflogaeth | Prif Darged:<br><br>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026.<br><br>Targedau Interim:<br><br>2011/14: 7,000 sq m<br>2014/17: 7,000 sq m<br>2017/20: 7,000 sq m<br>2020/23: 7,000 sq m<br>2023/26: 7,000 sq m<br><br>Targedau Blynyddol:<br><br>Datblygu 2,250msg o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, ar gyfartaledd, gyda tharged cronnol o 4,500 msg i gael ei ddatblygu dros unrhyw | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged yn AMB eleni, sy’n awgrymu effeithiau cymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS11 am ragor o wybodaeth. | |
| 58 | Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | Cymeradwywyd dau gais manwerthu ar raddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn un yn fwy na’r hyn a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro blaenorol. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler PS12 am ragor o wybodaeth. | |
| 88 | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg | Ni chyflwynwyd ceisiadau yn ystod y cyfnod monitro o fewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif oedd yn cyrraedd y trothwyon maint ar gyfer Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg.<br><br>Gweler PS22 am ragor o fanylion. | 0 |

**Dadansoddiad:**

- Mae PS2, PS3, PS5, PS6, PS7, PS8, PS10, PS11, PS12 a PS22 CDLl CNPT yn amlinellu nifer o ofynion sy'n ceisio gwella cydlyniant cymdeithasol a lleiafu'r achosion o eithrio cymdeithasol trwy ymdrin ag achosion eithrio cymdeithasol.
- Mae dadansoddi'r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y CDLl yn cael effaith gymysg o ran yr amcan AC hwn.

## Amcan 6B yr AC: Amddiffyn a gwella diwylliant a chymeriad cymunedau, gan gynnwys adnoddau diwylliannol a'r iaith Gymraeg

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 85 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar adeiladau a nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd pum cais o fewn y cyfnod monitro hwn, yn ymwneud ag Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol neu'n effeithio arnyn nhw. Barnwyd bod yr holl gynigion yn unol â'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS21 am ragor o wybodaeth. | |
| 87 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd tri chais o fewn y cyfnod monitro hwn, a barnwyd bod pob un ohonynt yn unol â'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS21 am ragor o wybodaeth. | |
| 88 | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | Ni chyflwynwyd ceisiadau yn ystod y cyfnod monitro o fewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif oedd yn cyrraedd y trothwyon maint ar gyfer Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg. | 0 |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler PS22 am ragor o fanylion. | |

**Dadansoddiad:**

- Er mwyn diogelu a gwella diwylliant a chymeriad cymunedau, gan gynnwys adnoddau diwylliannol a'r Gymraeg, mae PS21 a PS22 CDLl CNPT yn ceisio gwrthsefyll datblygiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi a fyddai'n effeithio ar adeiladau a nodweddion sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol, Ardaloedd Cadwraeth a phob safle dynodedig arall, ac mae gofyn bod Cynllun Gweithredu Iaith yn cyd-fynd â cheisiadau perthnasol sy'n unol â'r fframwaith polisi.
- Mae'r dadansoddiad o'r dangosydd uchod yn awgrymu bod y CDLl yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol o ran yr amcan AC hwn.

## 11.7 Pwnc 7 yr AC: Iechyd a Llesiant

### Amcan 7A yr AC: Gwella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i bawb

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedo | Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd ceisiadau a fyddai'n arwain at golli mannau agored a/neu gyfleusterau cymunedol yn groes i'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS2 am ragor o wybodaeth. | (gwyrdd) |
| 46 | Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau tai a ganiatawyd heb roi sylw i anghenion mannau agored y preswylwyr | Dylai pob datblygiad tai newydd sydd â 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer mannau agored lle mae diffyg meintiol | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS10 am ragor o fanylion. | (oren) |
| 47 | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd wrth ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd ceisiadau sydd wedi arwain at golli mannau agored lle mae diffyg darpariaeth o ran y categori hwnnw o fannau agored yn y ward. | (gwyrdd) |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler PS10 am ragor o wybodaeth. | |
| 49 | *Dangosydd Lleol:* Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT<br><br>*Dangosyddion Cyddestunol:* Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Prif Darged: Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026<br><br>Targedau Interim:<br><br>2011/14: - 1,458<br>2014/17: +1,326<br>2017/20: +1,326<br>2020/23: +1,326<br>2023/26: +1,326<br><br>Annual Target:<br>Targed Blynyddol: Ennill 442 o swyddi y flwyddyn ar gyfartaledd o 2014 yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 884 o swyddi yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS11 am ragor o fanylion. | |
| 53 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd gweithgarwch economaidd yn CNPT<br><br>*Dangosydd Cyddestunol:* Cyfradd gweithgarwch economaidd yng<br><br>Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Codi cyfradd y gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026 | Mae’r dangosydd hwn yn adrodd am ddata a gymerwyd o Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS, nad yw eto wedi cael ei ryddhau ar gyfer y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS11 am ragor o wybodaeth. | |
| 54 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd diweithdra yn CNPT<br><br>*Dangosydd Cyddestunol*: Cyfradd diweithdra yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Gostwng cyfradd diweithdra i 6.9% erbyn 2026 | Mae’r dangosydd hwn yn adrodd am ddata a gymerwyd o Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS, nad yw eto wedi cael ei ryddhau ar gyfer y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS11 am ragor o wybodaeth. | |
| 61 | Datblygu ystod o lwybrau cerdded a beicio gwell | Cwblhau Llwybr Arfordir Cymru erbyn 2012<br><br>Cwblhau Llwybrau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013 | Mae'r llwybrau a restrwyd yn y CDLl wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd a llesiant.<br><br>Gweler PS13 am ragor o wybodaeth. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | Cwblhau Llwybr y ‘Great Dragon Ride’ erbyn 2012 | | |
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i’r fframwaith polisi | Ni ddylai cynigion datblygu greu cynnydd sylweddol mewn lefelau llygredd nac arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy’n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd | O fewn y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd un cais perthnasol yn yr ARhAA. Barnwyd bod y cynnig yn unol â’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS16 am ragor o wybodaeth. | |
| 67 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu (CMP) | Ni ddylai amodau ansawdd aer gael eu torri yn ystod y cyfnod adeiladu yn groes i’r Cynllun Rheoli Adeiladu (CMP) a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | Roedd angen CRhA ar un cais a ganiatawyd o fewn yr ARhAA / o fewn 500m i ffin yr ARhAA. Ymdriniwyd â hynny trwy amod.<br><br>Gweler PS16 am ragor o fanylion. | |
| 69 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS16 am ragor o wybodaeth. | |
| 82 | Cwblhau llwybrau beicio a restrwyd | Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014<br><br>Mae Llwybr Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013 | Mae Llwybr Cwm Afan wedi'i gwblhau, a Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi'i gwblhau yn rhannol.<br><br>Gweler PS20 am ragor o wybodaeth. | |

**Dadansoddiad:**

- Er mwyn gwella’r canlyniadau iechyd corff a meddwl i bawb, mae PS2, PS10, PS11, PS13, PS16 a PS20 CDLl CNPT yn amlinellu nifer o ofynion polisi ar gyfer datblygiadau newydd.
- Mae dadansoddiad o’r dangosyddion hyn yn awgrymu bod y CDLl yn cael effaith gymysg o ran yr amcan AC hwn. Nodir bod nifer o ddangosyddion yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol (dangosyddion 7, 47, 61, 66, 67, 69 ac 82) a nodir bod dau ddangosydd yn cael effaith gymysg (dangosyddion 46 a 49).

**Amcan 7B yr AC: Lleihau/lleiafu nifer yr achosion o afiechyd a'u heffeithiau trwy ymdrin ag achosion a chanlyniadau afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a llesiant gwael**

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw geisiadau a fyddai'n arwain at golli mannau agored a/neu gyfleusterau cymunedol yn groes i'r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS2 am ragor o wybodaeth. | |
| 46 | Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau tai a ganiatawyd heb roi sylw i anghenion mannau agored y preswylwyr | Dylai pob datblygiad tai newydd sydd â 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer mannau agored lle mae diffyg meintiol | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS10 am ragor o fanylion. | |
| 47 | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd wrth ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi | O fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd ceisiadau sydd wedi arwain at golli mannau agored lle mae diffyg darpariaeth o ran y categori hwnnw o fannau agored yn y ward.<br><br>Gweler PS10 am ragor o wybodaeth. | |
| 49 | *Dangosydd Lleol:* Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT<br><br>*Dangosyddion Cyddestunol:* Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | Prif Darged: Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026<br><br>Targedau Interim:<br><br>2011/14: - 1,458<br>2014/17: +1,326<br>2017/20: +1,326<br>2020/23: +1,326<br>2023/26: +1,326<br><br>Targed Blynyddol: | Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS11 am ragor o fanylion. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | Ennill 442 o swyddi y flwyddyn ar gyfartaledd o 2014 yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 884 o swyddi yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd | | |
| 53 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni cynnydd yng nghyfradd gweithgaredd economaidd i 76% erbyn 2026 | Mae’r dangosydd hwn yn adrodd am ddata a gymerwyd o Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS, nad yw eto wedi cael ei ryddhau ar gyfer y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS11 am ragor o wybodaeth. | |
| 54 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd diweithdra CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026 | Mae’r dangosydd hwn yn adrodd am ddata a gymerwyd o Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS, nad yw eto wedi cael ei ryddhau ar gyfer y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS11 am ragor o wybodaeth. | |
| 61 | Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell | Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012<br><br>Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013<br><br>Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012 | Mae'r llwybrau a restrwyd yn y CDLl wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd a llesiant.<br><br>Gweler PS13 am ragor o wybodaeth. | |
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi | Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd | O fewn y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd un cais perthnasol yn yr ARhAA. Barnwyd bod y cynnig yn unol â’r fframwaith polisi.<br><br>Gweler PS16 am ragor o wybodaeth. | |
| 67 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith | Ni ddylai fod unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes | Roedd angen CRhA ar un cais a ganiatawyd o fewn yr ARhAA / o fewn 500m i ffin yr ARhAA. Ymdriniwyd â hynny trwy amod. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | Gweler PS16 am ragor o fanylion. | |
| 69 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS16 am ragor o wybodaeth. | |
| 82 | Cwblhau'r llwybrau beicio a restrwyd | Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014<br><br>Mae Llwybr Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013 | Mae Llwybr Cwm Afan wedi'i gwblhau, a Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi'i gwblhau yn rhannol.<br><br>Gweler PS20 am ragor o wybodaeth. | |

**Dadansoddiad:**

- Mae PS2, PS10, PS11, PS13, PS16 a PS20 CDLl CNPT yn amlinellu nifer o ofynion polisi ar gyfer datblygiadau newydd er mwyn lleihau/lleiafu’r achosion o afiechyd a’u heffeithiau, trwy ymdrin ag achosion a chanlyniadau afiechyd, anghydraddoleb iechyd a llesiant gwael.
- Mae dadansoddiad o’r dangosyddion uchod yn awgrymu effeithiau cymysg o ran yr amcan AC hwn. Mae’r dadansoddiad o ddangosyddion 7, 42, 61, 66, 67, 69 ac 82 yn awgrymu bod y CDLl yn cael effaith gyffredinol adarnhaol, ac mae’r dadansoddiad o ddangosyddion 46 a 49 yn awgrymu effeithiau cymysg.

## Amcan 7C yr AC: Lleihau / lleiafu’r achosion o dlodi a’u heffeithiau trwy ymdrin ag achosion a chanlyniadau tlodi

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 49 | *Dangosydd Lleol:* Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT<br><br>*Dangosyddion Cyd-destunol:* Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;<br><br>Lefel a chyfraddau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig | Prif Darged:<br><br>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026<br><br>Targedau Interim:<br>2011/14: - 1,458<br><br>2014/17: +1,326<br><br>2017/20: +1,326<br><br>2020/23: +1,326<br><br>2023/26: +1,326 | Mae’r dangosydd hwn wedi methu â chyrraedd ei darged mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn.<br><br>Gweler PS11 am ragor o fanylion. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | Targed Blynyddol:<br><br>Enillion cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 884 yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd | | |
| 53 | *Dangosydd Lleol:* Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol:* Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni cynnydd yng nghyfradd gweithgaredd economaidd i 76% erbyn 2026 | Mae'r dangosydd hwn yn adrodd am ddata a gymerwyd o Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS, nad yw eto wedi cael ei ryddhau ar gyfer y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS11 am ragor o wybodaeth. | |
| 54 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd diweithdra CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026 | Mae'r dangosydd hwn yn adrodd am ddata a gymerwyd o Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS, nad yw eto wedi cael ei ryddhau ar gyfer y cyfnod monitro.<br><br>Gweler PS11 am ragor o wybodaeth. | |

**Dadansoddiad:**

- Mae PS11 CDLl CNPT yn amlinellu nifer o ofynion o ran datblygiad economaidd er mwyn lleihau/lleiafu'r achosion o dlodi a'u heffeithiau trwy ymdrin ag achosion a chanlyniadau tlodi.

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|

- Mae dadansoddiad o ddangosydd 49 uchod yn awgrymu bod y CDLl yn cael effeithiau cymysg o ran yr amcan hwn.
- Nid oes data wedi cael ei ddarparu gan yr ONS i fedru adrodd am effeithiau’r CDLl o ran y dangosyddion hyn.

## 11.8 Pwnc 8 yr AC: Economi

**Amcan 8A yr AC: Datblygu a chynnal seilwaith economaidd lleol sy’n ddeniadol i fusnes ac yn diwallu anghenion newidiol y gymuned leol a chenedlaethol**

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
